Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

# Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru

## Asesiad o Anghenion Strategol
## Adroddiad ar y prif bwyntiau

**Mawrth 2020**

**Uned Atal Trais Cymru**



**Mae Uned Atal Trais Cymru yn gweithredu drwy frwdfrydedd ar y cyd cynghrair o sefydliadau i atal trais. Credwn mai'r unig lefel dderbyniol o drais yn ein cymunedau yw sero, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i wireddu hyn.**

Mae Uned Atal Trais Cymru yn gweithredu drwy frwdfrydedd ar y cyd cynghrair o sefydliadau i atal trais. Credwn mai'r unig lefel dderbyniol o drais yn ein cymunedau yw sero, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i wireddu hyn.

Rydym yn ymrwymedig i atal trais drwy ddull iechyd y cyhoedd. Mae'r dull hwn yn herio'r cysyniad bod trais yn anochel ac, yn lle hynny, mae'n dangos bod modd rhagweld trais a'i atal, fel unrhyw broblem iechyd arall. Rydym yn ceisio tystiolaeth i ddeall achosion trais a'r hyn sy'n gweithio i'w atal. Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr achosion sylfaenol hyn. Yna, rydym yn gwerthuso'r ymyriadau hyn cyn ehangu prosiectau a rhaglenni effeithiol er mwyn helpu mwy o bobl a chymunedau yng Nghymru drwy ddull system gyfan o atal trais.

Ffocws ein Hasesiad o Anghenion Strategol oedd Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru, ac mae'n rhan hollbwysig o'n gwaith i ddatblygu ymyriadau atal trais llwyddiannus yng Nghymru. Bydd y dadansoddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Asesiad o Anghenion yn ein helpu i bennu cyfeiriad Uned Atal Trais Cymru a'n gwaith gyda'n partneriaid.

Mae'r adroddiad hwn ar y prif bwyntiau yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a nodwyd drwy'r Asesiad o Anghenion. Drwy waith ymchwil a dadansoddi, ar y cyd â phartneriaid yn yr heddlu, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol, rydym wedi deall difrifoldeb trais yng Nghymru, wedi nodi'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais difrifol, ac wedi cydnabod cost trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru.

Nawr bod gennym ddealltwriaeth well o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ne Cymru, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Rydym yn croesawu arloesedd ond gan wrando ar y dystiolaeth i lywio'r hyn sy'n debygol o fod yn effeithiol, neu'n aneffeithiol. Fel rhan o'n Hasesiad o Anghenion, rydym wedi datblygu argymhellion ar gyfer yr Uned Atal Trais a'n partneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r gwaith yn gofyn am ddull system gyfan, ac ni fyddwn yn gweld newidiadau dros nos. Fodd bynnag, mae Uned Atal Trais Cymru yn ffodus o allu adeiladu ar sylfaen gadarn o gydweithio, er mwyn sicrhau newid gwirioneddol i unigolion a chymunedau yng Nghymru.

**Jon Drake**
Cyfarwyddwr, Uned Atal Trais Cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 1
Cost Trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru 3
Trosolwg o Heddlu De Cymru 5
Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc 7
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 11
Lleisiau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol 12
Data'r heddlu 14
Trais ag anafiadau 14
Cam-drin Domestig 14
Lladdiadau 15
Troseddau cyllyll 16
Troseddau Drylliau 17
Data Iechyd (System Gwyliadwriaeth Trais) 19
Y Boblogaeth sy'n Troseddu yng Nghymru 21
Trais mewn carchardai 21
Aildroseddu 22
Crynodeb 23
Argymhellion 24
Cyfeiriadau 26
Atodiad 29



**Awduron:** Annemarie Newbury[i], Lara C Snowden[i], Emma R Barton[i], Becca Attar[ii] a Bryony Parry[i]


Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar y prif bwyntiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, o dan Uned Atal Trais Cymru. I gael copi o'r adroddiad llawn neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


Lara Snowdon, Arweinydd y Rhaglen Atal Trais
Llawr 5, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
E: PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk
W: violencepreventionwales.co.uk

i. Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru
ii. Heddlu De Cymru

# Cyflwyniad

Mae corff cynyddol o ymchwil fyd-eang wedi nodi'r pwysau trwm y mae trais rhyngbersonol yn eu rhoi ar iechyd unigolion, cymunedau a chymdeithasau ar hyd taith bywyd. Yn ogystal â'r effeithiau unigol hyn, mae trais yn effeithio ar deuluoedd, cymunedau a'r gymdeithas ehangach; mae hyn yn rhoi cryn bwysau ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol a sectorau eraill megis addysg.[1] Felly, mae trais rhyngbersonol yn fygythiad difrifol i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, yn enwedig y rhai hynny sy'n targedu iechyd a lles, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a heddwch a chyfiawnder. Mae angen cymryd camau ym mhob sector a lleoliad i atal ac ymateb i drais rhyngbersonol, a lliniaru'r effeithiau ar genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.


Ledled Cymru a Lloegr, gwelwyd cryn fuddsoddiad, newid deddfwriaethol a sylw i bolisi er mwyn mynd i'r afael â thrais difrifol a throseddau cyllyll.[2] Yn 2019, dyrannodd yr Ysgrifennydd Cartref £35 miliwn i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn 18 o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr er mwyn sefydlu unedau lleihau trais amlasiantaeth. Nod yr unedau hyn oedd dod â'r heddlu, llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd, arweinwyr cymunedol a phartneriaid allweddol eraill ynghyd, gyda'r bwriad penodol o fynd i'r afael â throseddau treisgar a'u hachosion sylfaenol.[3] Roedd y buddsoddiad hwn yn ychwanegol at gyfres o gamau a gymerwyd i leihau nifer yr achosion o aildroseddu, hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ac ysgogi cydberthnasau gwaith agosach rhwng partneriaid fel rhan o amrywiaeth ehangach o weithgareddau a mesurau sy'n cwmpasu dull iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â thrais difrifol a throseddau cyllyll. Roedd Heddlu De Cymru yn un o 18 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i gael cyllid i sefydlu uned lleihau trais.

## The Wales Violence Prevention Unit

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019, gyda chenhadaeth i atal pob math o drais ledled Cymru drwy ddull iechyd y cyhoedd (Gweler blwch 1). Nod yr uned yw nodi achosion sylfaenol trais a darparu ymateb cysylltiedig i atal trais drwy ymyrryd yn gynnar a chymryd camau dargyfeirio. Gan adeiladu ar hanes o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru, mae Uned Atal Trais Cymru yn dod â phartneriaid allweddol ynghyd, gan gynnwys yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol, y system cyfiawnder ieuenctid a'r sector gwirfoddol. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dyrannu cyllid i Heddlu De Cymru i leihau achosion o drais difrifol yn ardal yr heddlu. Fodd bynnag, nod Uned Atal Trais Cymru yw gweithio gyda heddluoedd Gwent, Gogledd Cymru a Dyfed Powys i atal pob math o drais ledled Cymru.

**Blwch 1: Dull iechyd y cyhoedd o atal trais:**

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais, sydd â'r nod o hybu iechyd a llesiant y boblogaeth gyfan drwy fynd i'r afael â'r ffactorau risg sylfaenol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o drais, a hyrwyddo ffactorau amddiffynnol.[4] Mae'n ddull lle y caiff maint a natur y broblem ei deall ac y caiff ymyriadau eu profi cyn eu cyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau.



# Cwmpas yr asesiad o anghenion strategol mewn perthynas â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc

Mae'r adroddiad hwn yn asesu epidemioleg trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn ardal Heddlu De Cymru. Mae hyn yn cynnwys y tueddiadau sefydledig a newydd mewn perthynas â thrais, y carfannau sydd fwyaf tebygol o ymwneud â thrais, y ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais, ac effaith trais ar wasanaethau gofal iechyd. Bydd hyn yn darparu asesiad sylfaenol o drais difrifol ymhlith pobl ifanc ac yn galluogi gwasanaethau i nodi ble i dargedu ymyriadau a chamau ataliol. Mae'r Asesiad o Anghenion Strategol wedi'i ddefnyddio i lywio 'Strategaeth Atal Trais Difrifol ymhlith pobl ifanc' Uned Atal Trais Cymru.

Yng Nghymru, mae'r diffiniad canlynol o drais difrifol ymhlith pobl ifanc wedi'i ddatblygu:

**"Mae trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac mae'n debygol o gael ei nodweddu gan droseddau cyllyll a drylliau a lladdiadau, gyda chysylltiadau â throseddau camfanteisio megis caethwasiaeth fodern, camfanteisio rhywiol, a throseddau sy'n gysylltiedig â marchnadoedd cyffuriau."**

Mae hyn yn cynnwys achosion o drais ag anafiadau, troseddau cyllyll, troseddau drylliau a lladdiadau. Fodd bynnag, mae pob math o drais a throseddau cysylltiedig wedi'u cynnwys er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ne Cymru, gan gynnwys trais domestig a throseddau sy'n gysylltiedig â'r farchnad gyffuriau.

## Asesiad o Anghenion Strategol: Methodoleg

Mae gwybodaeth wedi'i chasglu a'i dadansoddi gan amrywiaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn ardal Heddlu De Cymru. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth o'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais, gan gynnwys y data diweddaraf o amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus a oedd ar gael, yn[1] cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg o Droseddau Cymru a Lloegr; StatsCymru (mae'r dyddiadau'n amrywio yn ôl set ddata ); a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Tachwedd 19). At hynny, darparwyd dadansoddiad[2] o ddata a chudd-wybodaeth gan Heddlu De Cymru (Awst 2018-Gorffennaf 2019), a defnyddiwyd data o system gwyliadwriaeth trais De Cymru (Ionawr 2017-Rhagfyr 2019).

Casglwyd gwybodaeth bellach gan grwpiau ffocws gyda'r heddlu a phlant a phobl ifanc â phrofiad ymarferol o drais difrifol ymhlith pobl ifanc.

1 Each data source provides data for different time periods. The data presented can vary by time scale, however, all data was reviewed up until April 2020

2 The South Wales violence surveillance system collates data from South Wales Police on violent crimes reported, Welsh Ambulance Service Trust on violence related call-outs, and the local health boards on A&E attendances for violence related injuries [Western Bay UHB, Cardiff and Vale UHB and Cwm Taf].

# Cost Trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru

## Amcangyfrifir bod trais yn costio £46.5 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Defnyddiwyd dulliau cost salwch i amcangyfrif cost trais i'r GIG yng Nghymru, gan ddefnyddio data a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019.[5] Defnyddiwyd yr amcangyfrifon canlynol:

**Cost trais rhyngbersonol** – gan gynnwys anafiadau corfforol yn dilyn ymosodiad. Casglwyd data ar gyfer:


- Achosion o droseddau treisgar ag anafiadau a gofnodwyd gan bob un o'r pedwar heddlu[5] (wedi'u hailgyfrifo i gynnwys cyfradd yr achosion na roddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt ). Roedd hyn yn cynnwys **35,998 o achosion o droseddau treisgar ag anafiadau.**
- Nifer amcangyfrifedig yr ymosodiadau a arweiniodd at fynd i uned damweiniau ac achosion brys ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys **10,817 o bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys** yn dilyn ymosodiad, gan gostio £200 fesul achos.[6]
- Nifer y galwadau am ambiwlans ledled Cymru, sef tua **1,324 o alwadau**, gan gostio £267 fesul galwad.[6]
- Cost triniaethau meddygol i drin niwed corfforol, **sef tua £1,254** fesul claf yr oedd angen triniaeth feddygol arno.[6]
- Cost arosiadau cleifion annewisol. Bu **958 o dderbyniadau brys**, gan gostio £1,603 fesul unigolyn.[6]

**Effeithiau emosiynol trais -** gan gynnwys trais ag anafiadau a thrais heb anafiadau. Yn seiliedig ar ymchwil flaenorol a chost amcangyfrifedig cwnsela fesul awr (£44[7]), y gwariant amcangyfrifedig ar gwnsela oedd **£22.2 miliwn**.


**Y defnydd o wasanaethau gofal sylfaenol –** amcangyfrifwyd bod ymgyngoriadau meddyg teulu yn dilyn achos o drais ag anafiadau yn costio £84 fesul unigolyn.[7] Y gwariant amcangyfrifedig yng Nghymru yw **£3.0 miliwn**.

**Costau anafiadau hunangyfeiriedig –** bu **4,552 o dderbyniadau brys** ledled Cymru, ac amcangyfrifwyd bod **8,430 o achosion o hunan-niwed** wedi arwain at dderbyn claf i'r ysbyty.

Graff 1: Dadansoddiad o gost trais i'r gwasanaeth Iechyd





Graff 2: Dadansoddiad o gostau anafiadau corfforol yn dilyn ymosodiad




# Trosolwg o Heddlu De Cymru

Heddlu De Cymru yw'r mwyaf o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Yn ddaearyddol, mae'r heddlu'n gwasanaethu 10% o Gymru, ond mae'n gwasanaethu 42% o boblogaeth y wlad (1.32 miliwn o bobl). Mae De Cymru yn rhanbarth amrywiol, gydag ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol a dwy ddinas fwyaf Cymru – Abertawe a'r brifddinas, Caerdydd.[8] Gyda'i gilydd, mae'r dinasoedd hyn yn cyfrif am hanner poblogaeth De Cymru (19% o Gymru).[9]

O fewn pedwar rhaniad yr heddlu (yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol, Ganolog, Ddwyreiniol a Gorllewinol), mae tri bwrdd iechyd a saith awdurdod lleol:




Mae 5,460 o swyddogion yr heddlu a staff yn gweithio i Heddlu De Cymru, a hynny mewn rolau heddlu gweithredol ac anweithredol. Er bod nifer swyddogion yr heddlu wedi lleihau 5% ers 2010, mae nifer y swyddogion wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd o 2.4% dros y flwyddyn ddiwethaf (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019).[10] O blith y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, Heddlu De Cymru yw'r pumed cryfaf, gyda 224 o swyddogion yr heddlu fesul 1,000 o'r boblogaeth.[10]


## Poblogaeth De Cymru

Amcangyfrifir bod gan Dde Cymru boblogaeth o 1,330,975 (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018), sef cynnydd o 4% ers cyfrifiad 2011 (47,324 o bobl). Mae De Cymru yn cwmpasu ardal o 2,079 o gilomedrau sgwâr, gyda dwysedd poblogaeth cyffredinol o 640 o bobl fesul cilomedr$^2$.[9] Mae'r dwysedd poblogaeth hwn yn sylweddol fwy na phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr (gweler tabl 1). Yn Ne Cymru, mae 27% o'r boblogaeth yn byw yng Nghaerdydd, sef yr ardal fwyaf poblog yng Nghymru (dwysedd o 2,585 o bobl/cilomedr$^2$); mae'r ardal hon deirgwaith yn fwy poblog na dinas Casnewydd, sef yr awdurdod lleol sydd â'r dwysedd poblogaeth mwyaf ond un yng Nghymru (804 o bobl/km2);

Tabl 1: Dwysedd poblogaeth a dwysedd dynion a menywod

| | De Cymru | | Cymru a Lloegr | |
|---|---|---|---|---|
| Amrywiol | Cyfrif | Canran | Cyfrif | Canran |
| Pob preswylydd arferol | 1,330,975 | 100 | 59,115,809 | 100 |
| Gwrywaidd | 673,796 | 49 | 29,215,251 | 49 |
| Benywaidd | 657,179 | 51 | 29,900,558 | 51 |
| Dwysedd (pobl fesul cilomedr$^2$) | 640 | - | 391 | - |


Graff 3: Strwythur oedran De Cymru o gymharu â Chymru a Lloegr




# Oedran:

O gymharu â gweddill Cymru a Lloegr, mae gan Dde Cymru boblogaeth ychydig yn iau, gyda chyfran uwch o bobl ifanc 16-24 oed.[11]Mae De Cymru yn gartref i bum prifysgol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Er bod gan ddwy o'r prifysgolion hyn gampysau llai mewn rhannau eraill o Gymru, amcangyfrifir bod y boblogaeth gyfunol o fyfyrwyr yn ~98,000 o bobl.[12] Felly, mae'r oedran canolrifol yn iau yn y ddau awdurdod lleol lle mae'r mwyafrif o'r boblogaeth o fyfyrwyr yn byw (33.6 oed yng Nghaerdydd a 39.6 oed yn Abertawe) na Chymru a Lloegr (39.9 oed).[13]

Graff 4: Ethnigrwydd y boblogaeth yn ardal Heddlu De Cymru




# Ethnigrwydd:


Yn Ne Cymru, dywedodd 92% o'r boblogaeth eu bod yn wyn (Cyfrif Cenedlaethol 2011).[11]11Mae gan Gaerdydd boblogaeth fwy amrywiol, gyda 85% wedi dweud eu bod yn wyn, a chymuned Asiaidd fwy (8%) nag ardaloedd eraill De Cymru. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau lleol sy'n weddill yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd, gan gynnwys Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg, y mae mwy na 95% o'u poblogaeth yn bobl wynion.

# Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc

Mae amrywiaeth eang o ffactorau sy'n gysylltiedig â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc, naill ai yn nhermau cynyddu neu leihau'r risg o drais neu niwed o drais (Gweler atodiad 1 am drosolwg o'r llenyddiaeth yn y cyd-destun). Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffactorau hyn yn bwysig er mwyn dylunio a datblygu rhaglenni atal trais. Dylid datblygu rhaglenni ar sail damcaniaeth newid sy'n ceisio addasu gwahanol ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffynnol, gyda'r nod cyffredinol o atal ymddygiad treisgar.

Gellir mapio'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol hyn ar draws y model economaidd-gymdeithasol. Mae ymchwil wedi dangos y gall ffactorau unigol gynyddu'r risg y bydd unigolyn yn ymwneud â thrais, gan gynnwys ei broffil demograffig (e.e. oedran[11-12], rhywedd, ethnigrwydd), nodweddion seicolegol ac ymddygiadol a deilliannau addysgol). At hynny, gall y math o gydberthnasau sydd gan unigolyn â ffrindiau a theulu gynyddu neu leihau'r risg y bydd yn ymwneud â thrais, yn ogystal â ffactorau cymunedol a chymdeithasol megis anghydraddoldeb ac amddifadedd cymdeithasol. Mae'r diagram isod yn dangos y ffactorau hyn:

# FFACTORAU RISG A FFACTORAU AMDDIFFYNNOL AR GYFER **TRAIS DIFRIFOL YMHLITH POBL IFANC**




- Lefel uchel o anghydraddoldeb cymdeithasol ac anghydraddoldeb o ran incwm
- Diffyg cyfraith a pholisïau gorfodi a chyfraith genedlaethol da mewn perthynas ag addysg ac amddiffyniad cymdeithasol
- Ardaloedd trefol
- Tlodi
- Defnyddio'r cyfryngau torfol i gyfleu trais
- Trais: dilysu arferion gwrywdod
- Arferion cymdeithasol a diwylliannol sydd o blaid trais

- Cyfleoedd economaidd

- Gangiau a chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn lleol
- Argaeledd arfau
- Y gallu i gael gafael ar alcohol a chyffuriau a'u camddefnyddio
- Amlygiad i fathau eraill o drais ac ofn trais mewn ysgolion ac yn y gymuned

- Mannau cyhoeddus wedi'u dylunio i gynyddu gwelededd, rheolaeth, mynediad, hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol a defnydd priodol
- Mynediad at wasanaethau a chymorth cymdeithasol
- Parodrwydd preswylwyr i helpu ei gilydd a'r farn gyffredin nad yw trais yn dderbyniol
- Ysgolion, parciau, busnesau ac ardaloedd preswyl a gaiff eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd
- Diogelwch ariannol y cartref
- Tai diogel a sefydlog

- **Seicolegol:** Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anhwylderau ymddygiadol, diffyg hunan-barch, ynysu cymdeithasol, byrbwylltra, diffyg hunanreolaeth, iselder, anobaith am y dyfodol
- **Addysg a chyflogaeth:** diffyg deallusrwydd a chyflawniad addysgol, triwantiaeth a gwaharddiadau, diweithdra
- **Ymddygiad:** ymwneud â thrais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymwneud â chyffuriau ac alcohol a thybaco o oedran cynnar, agwedd gadarnhaol at droseddu
- Dynion yn cael rhyw, oedran ifanc (yr oedran mwyaf cyffredin yn Ne Cymru yw 17 oed), ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig)
- Anaf trawmatig i'r ymennydd
- Achosion blaenorol o fictimeiddio neu ofn trais

- Sgiliau datrys problemau iach
- Parodrwydd i fynd i'r ysgol
- Sgiliau rheoli emosiynau
- Cyflawniad academaidd

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Diffyg monitro a goruchwylio gan rieni
- Arferion disgyblu llym, llac neu anghyson ymhlith rhieni
- Lefelau isel o ymlyniad rhwng plant a rhieni
- Camddefnyddio sylweddau neu droseddoldeb ymhlith rhieni
- Amlygiad i drais yn y teulu
- Iselder ymhlith rhieni

- Cydberthnasau agos rhwng rhieni a phobl ifanc
- Rhieni sy'n gosod terfynau cyson ac sy'n briodol i ddatblygiad yr unigolyn
- Rhyngweithio â chyfoedion cymdeithasol gadarnhaol nad ydynt yn dreisgar
- Cydberthnasau cadarnhaol ag athrawon ac oedolion gofalgar eraill
- Plant yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hysgol
- Rhieni yn dangos diddordeb yn addysg a chydberthnasau cymdeithasol eu plentyn

Ffactorau Risg

Ffactorau Amddiffynnol

# Poblogaeth De Cymru

Mae llawer o ddata ar gael o nifer o ffynonellau a all ddarparu gwybodaeth am y ffactorau risg ar gyfer trais difrifol ymhlith pobl ifanc ar lefel y boblogaeth. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ystyried sut y gellir cymhwyso'r ffactorau risg a nodir yn y llenyddiaeth at Dde Cymru:

**Demograffeg:** Mae trais yn fwy cyffredin ymhlith carfanau penodol o'r boblogaeth. Dangosodd data gan Heddlu De Cymru dros gyfnod o flwyddyn (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019) fod tua 80% o ddioddefwyr a chyflawnwyr troseddau treisgar yn ddynion Prydeinig gwyn. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y menywod ifanc sy'n ymwneud â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac, o ganlyniad, cynnydd yn nifer y menywod sy'n cyflawni trais, yn genedlaethol ac yn Ne Cymru. Caiff cyfran fawr o droseddau cyllyll eu cyflawni gan bobl ifanc dan 30 oed, gyda'r cyflawnwr ieuengaf yn ddim ond 7 oed. Mae gan ddioddefwyr troseddau cyllyll broffil oedran tebyg, ac mae llawer ohonynt wedi cyflawni trais, cyflenwi cyffuriau neu ddwyn eu hunain. Nifer bach o achosion o droseddau cyllyll a gofnodwyd mewn ysgolion, gyda dim ond 12 o achosion o ddefnyddio neu feddu ar gyllell dros gyfnod o flwyddyn (1% o ddigwyddiadau).

**Nodweddion seicolegol ac ymddygiadol:** gall ymddygiad cymryd risg, megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac achosion o wahardd disgyblion o'r ysgol, gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn ymwneud â thrais. Mae dadansoddiad Heddlu De Cymru wedi dangos bod llawer o gyflawnwyr trais eisoes yn hysbys i'r heddlu mewn perthynas â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gan gynnwys bron hanner y cyflawnwyr trais ag anafiadau a 54% o gyflawnwyr troseddau cyllyll. At hynny, roedd llawer o ddioddefwyr troseddau treisgar yn ymwneud â chyffuriau, gan gynnwys traean y dioddefwyr trais ag anafiadau a throseddau cyllyll.

Yn Ne Cymru, yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018, cafodd 38 o ddisgyblion eu gwahardd yn barhaol a 7,090 o ddisgyblion eu gwahardd am gyfnod penodol (96% ≤5 diwrnod). Roedd y cyfraddau gwahardd yn uwch ym Merthyr Tudful (50.5/1,000), Rhondda Cynon Taf (48.7/1,000) a Chastell-nedd Port Talbot (41.6/1,000). Trais corfforol yn erbyn myfyriwr neu oedolyn oedd yr achos mwyaf cyffredin dros wahardd disgybl yn barhaol (40.8%), yn ogystal â cham-drin geiriol neu fygythiadau yn erbyn disgybl neu oedolyn (17.8%). Roedd hyn hefyd yn wir am achosion o wahardd disgyblion am gyfnod penodol ≥5 diwrnod (55.2%) a <5 diwrnod (50.7%). Cafodd tua 20% o blant a phobl ifanc eu gwahardd am ymddygiad cyson ac aflonyddgar.

**Addysg:** Mae ymchwil wedi dangos bod diffyg cyflawniad academaidd ac ymrwymiad i'r ysgol yn ffactorau risg ar gyfer trais ymhlith pobl ifanc.[12] Yng Nghymru, mae 67% o bobl ifanc 14-16 oed yn cyflawni lefel 2 yn yr ysgol (5 gradd A*-C; 2017 ). Yn Ne Cymru, mae'r ganran hon mor isel â 58% ym Merthyr Tudful. Fodd bynnag, o ran plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (h.y. teuluoedd sy'n cael credyd cynhwysol), mae cyfran sylweddol lai yn cyflawni graddau lefel 2, yn enwedig ym mhwnc craidd Mathemateg neu Saesneg, lle mai dim ond 29% o'r bobl ifanc sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng Nghymru sy'n ennill[13] graddau A*-C.  Mae'r ganran hon mor isel â 24% ym Merthyr Tudful a 28% yn Rhondda Cynon Taf.

**Trawma:** Mae pobl ifanc sydd wedi cael profiad o drais yn ystod plentyndod yn wynebu mwy o risg o ymwneud ag achosion pellach o drais yn ystod glaslencyndod a bywyd[14] fel oedolyn. Yn Ne Cymru, roedd 1,420 o blant a phobl ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant, gan gynnwys 940 o blant a phobl ifanc 10-18 oed (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019). Y math mwyaf cyffredin o gam-drin a gofnodwyd ar gyfer plant ar y gofrestr yw cam-drin seicolegol ac emosiynol (45%) ac esgeuluso (33%), ac yna cam-drin corfforol a rhywiol (11% a[14] 4% yn y drefn honno). Mae traean y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn Ne Cymru yn byw yn Rhondda Cynon Taf (n=500), gyda 16% arall yn Abertawe (n=225) a 16% yng Nghaerdydd (n=185).

c. Ni chaiff data asesu athrawon ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol na'r consortia eu cyhoeddi ar gyfer 2018 ymlaen, yn dilyn ymgynghoriad ar gyhoeddi'r data hyn.

At hynny, mae 3,305 o Blant sy'n Derbyn Gofal yn ardal Heddlu De Cymru (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019), y mae'r mwyafrif ohonynt yn wedi'u gosod mewn lleoliadau gofal maeth (73%). Mae 225 o blant yng Nghymru sydd wedi'u gosod mewn lleoliadau preswyl, y mae llawer ohonynt yn byw yng Nghaerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf.[15]

**Amddifadedd:** Mae cysylltiad cryf rhwng trais a thlodi ac amddifadedd. Mae ymchwil yn Ne Cymru wedi dangos bod cyfraddau dioddefwyr trais ag anafiadau yn uwch ymhlith dynion (teirgwaith) a menywod (pedwar gwaith) yn ardaloedd mwyaf difreintiedig De Cymru o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.[5] Mae data mwy diweddar o'r arolwg o droseddau yng Nghymru a Lloegr (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019) yn dangos bod nifer yr achosion o drais yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru bron dwywaith yn fwy (3.3% o oedolion)[16] na nifer yr achosion o drais yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (1.8% o oedolion). Unwaith eto, mae'r bwlch rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yn sylweddol uwch ar gyfer achosion o drais ag anafiadau (2.2% a 0.5% yn y drefn honno).[16]

Er bod rhai ardaloedd mwy cefnog, ardal Heddlu De Cymru sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd, gan wasanaethu 60 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae 26% o gymunedau De Cymru yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 44% o gymunedau De Cymru yn y 50%[17] o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019). Fodd bynnag, gall lefel yr amddifadedd amrywio yn ôl awdurdod lleol, gydag ardaloedd megis Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ne Cymru (dim ond 22%,[17] 29% a 31% o gymunedau yn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, yn y drefn honno).

Yn Ne Cymru, mae chwarter y[17] cymunedau yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran amddifadedd incwm a chyflogaeth. Mae amddifadedd incwm yn asesu canran y boblogaeth sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, tra bod amddifadedd cyflogaeth yn asesu canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r gyfradd amddifadedd yn uwch yn Rhondda Cynon Taf, gyda 30% (incwm) a 36% (cyflogaeth) o'r cymunedau yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er bod gan Gaerdydd un o'r lefelau uchaf o gymunedau yn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig (56% incwm a 60% cyflogaeth), mae'r data'n dangos bod lefelau cymharol uchel o anghydraddoldeb, gyda chrynodiad sylweddol uwch o[17] ardaloedd yn y ganradd fwyaf a lleiaf difreintiedig na'r ardaloedd awdurdod lleol eraill yng Nghymru.

**Cyflogaeth:** Mae 662,500 o bobl economaidd weithgar yn ardal Heddlu De Cymru (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019),[18] ac mae 78% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed (50% o'r boblogaeth gyffredinol yn Ne Cymru). O blith y rhai sy'n economaidd weithgar, mae 75% mewn cyflogaeth, tra bod 3% yn ddiwaith (29,100 o bobl 16-64 oed). Mae canran y bobl mewn cyflogaeth ychydig yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru (74%), ond yn is na gweddill y DU (76%[18] mewn cyflogaeth). Fodd bynnag, mae'r gyfradd diweithdra yn is na gweddill Cymru a'r DU (4%). Mae'r gyfradd cyflogaeth ar ei hisaf yn[18] Rhondda Cynon Taf (68.7% mewn cyflogaeth, 5.1% yn ddi-waith), gyda'r gyfradd isaf ond un yn Abertawe, er gwaethaf y ffaith ei bod yn ddinas fawr (70% mewn cyflogaeth, 4.6% yn ddi-waith).

At hynny, mae 3% o boblogaeth De Cymru yn[18] cael credyd cynhwysol (n=27,840, Mawrth 2020). Mae'r ganran hon yn debyg i weddill Cymru a'r DU.

**Y Cyfryngau Cymdeithasol:** mae cudd-wybodaeth yr heddlu yn awgrymu bod y cyfryngau cymdeithasol yn ysgogi trais hefyd. Mae'n anodd iawn mesur effaith hyn, ond mae tystiolaeth gref bod gangiau yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo diwylliant gangiau, gwatwar ei gilydd ac ysgogi trais. Mae gan rai aelodau o gangiau lawer o ddilynwyr, ac mae ymchwil yn dangos mai'r sylwadau a'r fideos sy'n cael eu darllen a'u gwylio[14] fwyaf yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o arwain at drais dial. Mae hyn yn glamoreiddio arfau a bywyd gangiau, gan arwain at ymgiprys o bosibl. O fewn ardal yr heddlu, mae gwybodaeth yn awgrymu bod troseddwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a fideos dril, ond mae'n anodd mesur yr effaith y mae hyn wedi ei chael ar drais difrifol.

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, megis camarfer neu weld rhywun yn dioddef trais domestig, arwain at lefelau uwch o drais rhyngbersonol a thrais hunangyfeiriedig yn ystod glaslencyndod a bywyd fel oedolyn. Yng Nghymru,[18] mae ymchwil wedi'i chynnal i ystyried pa mor gyffredin yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y boblogaeth gyffredinol, yn ogystal ag ymchwil gyda grwpiau mwy agored i niwed neu sy'n wynebu risg (e.e. poblogaeth y carchardai, y digartref). Mae'r ymchwil hon wedi dangos:

Bod bron hanner y boblogaeth gyffredinol wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod (47%), a bod 14% wedi dioddef pedwar profiad niweidiol neu fwy yn ystod plentyndod.

Bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn aml yn arwain at effaith gronnol, gan olygu po fwyaf o brofiadau niweidiol y caiff plentyn ei amlygu iddynt yn ystod plentyndod, y mwyaf yw ei risg.

Y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gynyddu'r risg o ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, gan gynnwys arferion yfed risg uchel, camddefnyddio sylweddau ac ymwneud â thrais.

Bod y rhai sydd wedi cael pedwar profiad niweidiol neu fwy yn ystod plentyndod 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn rhywun arall yn ystod y 12 mis blaenorol na'r rhai heb unrhyw brofiadau negyddol yn ystod plentyndod, a'u bod 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais yn ystod y 12 mis blaenorol.[19]

Mae'r gydberthyns rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrais yn gymhleth. Nid yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn rhagfynegi tebygolrwydd rhywun o ymwneud â thrais, a gall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod amrywio yn ôl unigolyn a'r amgylchiadau ehangach. Felly, yn yr un modd â'r ffactorau risg eraill, ni ddylid defnyddio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel rhestr wirio ar gyfer asesiadau risg ar lefel unigol.

## Cyfleoedd i ymyrryd

Mae ymchwil wedi dangos y gall ffynonellau gwydnwch liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a ffactorau risg eraill, a lleihau'r risg o ganlyniadau negyddol yn ystod glaslencyndod a bywyd fel oedolyn. Gall ymyrryd yn gynnar a chreu ffynonellau gwydnwch ar gyfer plant ac oedolion (e.e. gwydnwch personol, cydberthnasau a chymunedol) liniaru effeithiau gydol oes trawma yn ystod plentyndod. Mae adolygiad o dystiolaeth wedi dangos bod dros 100 o ymyriadau ar gael yn fyd-eang i'r rhai y mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn effeithio arnynt, gan gynnwys ymyriadau sy'n cefnogi rhianta; yn meithrin cydberthnasau a gwydnwch; yn galluogi effeithiau niweidiol i gael eu nodi'n gynnar; ac yn ymateb i drawma a phrofiadau penodol yn ystod plentyndod. Nododd yr adolygiad nifer o fylchau yn yr ymyriadau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys ymyriadau ar gyfer profiadau niweidiol sy'n gysylltiedig â rhieni'n gwahanu a rhieni'n cael eu carcharu, a dulliau cydgysylltiedig yn ystod taith bywyd.[20]

Mae'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu'r agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru. Mae Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a'r hyb cymorth ACE wedi gweithio i ddatblygu ymatebion system gyfan i natur agored i niwed wedi'u llywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gan ddefnyddio dulliau iechyd y cyhoedd, mae newidiadau wedi'u gwneud i ddatblygu a symleiddio systemau, prosesau ac arferion ymhellach ar draws amrywiaeth o sectorau cyhoeddus, er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar ymyriadau cynnar a dulliau atal ar gyfer unigolion agored i niwed. Er enghraifft, mae hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i ddarparu ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys yr heddlu, carchardai a phrawf, addysg, tai, gofal cymdeithasol ac iechyd. Nod yr hyfforddiant hwn yw meithrin dealltwriaeth gyffredinol o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ymddygiad a chanlyniadau bywyd, darparu cipolwg ar y modd y gall gweithwyr proffesiynol feithrin gwydnwch ymhlith unigolion, a sicrhau y gellir cael gafael ar ymyriadau i ddiwallu anghenion unigolion agored i niwed.

**Adnoddau defnyddiol:**
**I gael rhagor o wybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru ac arferion wedi'u llywio gan drawma, ewch i'r gwefannau canlynol:**

**Iechyd Cyhoeddus Cymru: phw.nhs.cymru/**

**Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd:** aces.me.uk

**Hyb cymorth ACE:** aceawarewales.com/about

# Lleisiau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol

Gweithiodd Uned Atal Trais Cymru mewn partneriaeth â phobl ifanc, Barnardo's a Phrifysgol Caerdydd i glywed am brofiadau pobl ifanc o drais. Mae'r ymchwil gydweithredol hon yn rhoi dealltwriaeth o ganfyddiadau pobl ifanc o drais, eu profiadau yn eu cymuned a'r hyn a fyddai'n effeithiol i atal trais, yn eu barn nhw.

Mae gweithdai a grwpiau ffocws wedi'u cynnal gyda throseddwyr ifanc yn Ngharchar Parc (dynion 18-24 oed) ac mae carfan o ddefnyddwyr gwasanaethau (13-18 oed) wedi'u cefnogi gan sefydliadau trydydd sector yn Ne Cymru. At hynny, cynhaliodd yr Uned Atal Trais grŵp ffocws gyda swyddogion yr heddlu sy'n gweithio ar dîm tasglu Ymgyrch Sceptre De Cymru.[d] Mae canfyddiadau'r grwpiau ffocws yn nodi'r cysylltiad rhwng trais a'r farchnad gyffuriau. Yn fwy penodol, ymddengys fod cynnydd yn nifer yr achosion o drais, megis troseddau cyllyll, yn aml yn deillio o gynnydd mewn gweithgarwch gangiau ac anghydfodau tiriogaethol yn Ne Cymru.

d.Canolbwyntiodd timau plismona gweithredol sy'n gweithio yng Nghaerdydd ac Abertawe ar ddileu troseddau cyllyll a materion sy'n gysylltiedig â thrais difrifol a chyffuriau cyfreithiol.

## Troseddwyr ifanc:



Mae mwy o ddiddordeb mewn gwerthu cyffuriau yng Nghymru am fod llai o gystadleuaeth yn y farchnad gyffuriau. Bydd unigolion o ardaloedd megis Llundain a Birmingham yn symud i Gymru i werthu cyffuriau, gan ddefnyddio tactegau/arddulliau troseddol o'u hardal eu hunain. Teimlai'r cyfranogwyr y bydd hyn yn cynyddu'r gystadleuaeth yng Nghymru yn y pen draw, a fydd yn arwain at gynnydd mewn mathau eraill o drais (e.e. troseddau drylliau).

Teimlai troseddwyr ifanc eu bod yn debygol o aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau oherwydd yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth geisio trosglwyddo i garchar yn fwy lleol i'w cartref; heb y gallu i gael gafael ar gymorth ystyrlon, mae'n llawer mwy tebygol y byddant yn dychwelyd yn syth i'w ffordd droseddol flaenorol o fyw am nad ydynt yn teimlo bod unrhyw opsiwn arall.

## Pobl ifanc o'r gymuned:



Roedd y bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw yn teimlo nad oedd ganddynt unman lle y gallent deimlo'n ddiogel, am fod eu cymunedau'n cael eu hystyried yn anniogel a'u bod wedi cael profiad o gam-drin, esgeuluso a thrais domestig gartref. Roedd pob un ohonynt wedi gweld achosion sylweddol o drais, gan gynnwys troseddau cyllyll, na fyddent yn rhoi gwybod i ffigyrau mewn awdurdod amdanynt am eu bod yn poeni am ymddiriedaeth ac na fyddai neb yn gweithredu ar y wybodaeth honno. Roedd y bobl ifanc yn cydnabod bod cyfoedion yn anniogel ac yn ddylanwad negyddol.

Defnyddir plant iau a menywod i smyglo cyffuriau er mwyn osgoi'r risg y cânt eu canfod – gan ddefnyddio, er enghraifft, menywod i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu stopio a'u chwilio, defnyddio plant nad ydynt yn cael eu hystyried yn droseddol gyfrifol neu ddefnyddio pobl ifanc yn ystod y dydd yn hytrach na gyda'r nos fel yr ystyrir eu bod wedi dianc yn hytrach na'u bod ar goll.

Mae achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant yn gyffredin ac yn aml yn cyd-ddigwydd. Fodd bynnag, ni chaiff pobl ifanc roddion ond, yn hytrach, caiff eu diogelwch a'u teulu eu bygwth. Wrth ystyried atal, mae angen i wasanaethau ganolbwyntio ar natur agored i niwed pobl ifanc gan mai dyna'r union beth y mae manteiswyr yn ei wneud.

## Safbwynt yr Heddlu:



Mae Ymgyrch Sceptre yn ymateb i drais a achosir gan weithgarwch gangiau ac anghydfodau tiriogaethol Mae ardaloedd ag economi'r nos a phoblogaeth myfyrwyr yn fannau lle mae trais yn broblem, a hynny oherwydd natur dros dro ac amrywiol y gymuned. Teimlai'r heddlu fod y boblogaeth myfyrwyr yn "bwydo grwpiau troseddau cyfundrefnol ac yn gwneud yr arian".

Mae'r heddlu yn ymwybodol o dactegau a ddefnyddir gan droseddwyr i osgoi cael eu canfod gan yr heddlu (e.e. camfanteisio ar blant a merched), sy'n cynyddu nifer yr achosion o drais ymhlith pobl ifanc.

# Data'r heddlu


Yng Nghymru, mae'r gyfradd troseddu gyffredinol yn uwch na Lloegr, gyda 31.4 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth (28.6/1,000 yn Lloegr; y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019).[16] O blith y pedwar heddlu yng Nghymru, De Cymru sydd â'r nifer uchaf o achosion o droseddau 'trais yn erbyn unigolyn' a gofnodwyd, gan gyfrif am 39% o'r troseddau yng Nghymru.

## Trais ag anafiadau

Ne Cymru, cofnodwyd 38,735 o achosion o drais yn erbyn unigolyn mewn cyfnod o flwyddyn (a ddaeth i ben ym mis Medi 2019). Mae trais ag anafiadau yn fwy cyffredin yng Nghaerdydd, Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) ac Abertawe.

Bu cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg, mae nifer yr achosion o drais ag anafiadau wedi cynyddu bron traean (31% ym mhob awdurdod lleol).[21] Yn y ddwy ddinas, sef Caerdydd ac Abertawe, y gwelwyd y cynnydd lleiaf yn nifer yr achosion o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru, er bod nifer y troseddau a gofnodwyd yn parhau'n gyson uchel yn yr ardaloedd hyn.

Graff 5: Nifer yr achosion o drais yn erbyn unigolyn a gofnodwyd




## Cam-drin Domestig

**Amcangyfrifir y bydd cam-drin domestig yn effeithio ar 1 o bob 4 o fenywod ac 1 o bob 6 o ddynion yn ystod eu hoes.**


Ar sail yr ystadegau hyn a maint y boblogaeth, rydym yn amcangyfrif y bydd **539,056** o oedolion yng Nghymru yn dioddef cam-drin domestig.

Yn ystod cyfnod o flwyddyn (a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019), cofnodwyd 80,924 o ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â thrais domestig. Yng Nghymru, mae cyfradd yr achosion o gam-drin domestig yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr (26/1000 a 22/1000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno).[22]

Yn Ne Cymru, cofnodwyd 32,705 o droseddau a digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig, sef 25/1000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cynnwys 17,389 o droseddau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig (13/1000). Roedd De Cymru yn cyfrif am 40% o'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yng Nghymru.[22]

Yn Ne Cymru, caiff Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd eu cwblhau gan staff a swyddogion yr heddlu ar gyfer pryderon sy'n gysylltiedig â natur agored i niwed, a gaiff eu hasesu gan Unedau Diogelu'r Cyhoedd a'u rhannu ag asiantaethau partner. Dengys data ar atgyfeiriadau fod 58,583 o Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd wedi'u cwblhau gan swyddogion a staff mewn cyfnod o flwyddyn (a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019), y cafodd 26,870 ohonynt eu cyflwyno ar gyfer pryderon yn ymwneud â cham-drin domestig (46%; gweler graff 6). Mae hyn yn dangos bod staff a swyddogion yr heddlu yn nodi nifer uchel o unigolion sy'n agored i gam-drin domestig, a'u bod yn cwblhau atgyfeiriadau ar gyfer yr unigolion hyn er mwyn iddynt gael eu hasesu a chael cynnig cymorth gan wasanaethau eraill.[e]

Graff 6: Nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a gyflwynwyd yn Ne Cymru fesul ardal heddlu ar gyfer cam-drin domestig




## Lladdiadau

Ledled Cymru a Lloegr, bu farw 732 o bobl o ganlyniad i laddiadau (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018; cynnydd o 7% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Yn Ne Cymru, cofnodwyd 12 o laddiadau mewn cyfnod o flwyddyn (a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019), gan gynnwys pum lladdiad a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Cred ONS fod y cynnydd yn nifer y lladdiadau wedi'i lywio gan drais gan ddynion tuag at ddynion a'r cynnydd mewn troseddau cyllyll; caiff hyn ei adlewyrchu yn Ne Cymru, gyda'r mwyafrif helaeth o ddioddefwyr (75%, n=9) a chyflawnwyr (85%, n=15) a gofnodwyd yn wrywaidd, a dros hanner y lladdiadau a gofnodwyd wedi'u hachosi gan achosion angheuol o drywanu â chyllell neu eitem lafnog.

Dioddefwyr gwrywaidd sydd fwyaf tebygol o gael eu lladd gan ddieithryn neu gydnabod, tra bod menywod yn fwy tebygol o ddioddef lladdiadau domestig.[16] Yn Ne Cymru, cafodd 100% o fenywod eu lladd gan bartneriaid neu gyn-bartneriaid o gymharu â 10% o ddioddefwyr gwrywaidd, ac roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o gael eu lladd gan ffrindiau neu gydnabod (45% o ddioddefwyr gwrywaidd o gymharu â dim dioddefwyr benywaidd).

O ran lladdiadau annomestig yn Ne Cymru, roedd y mwyafrif o gyflawnwyr a dioddefwyr yn wrywaidd, ac yn perthyn i'r grŵp oedran 16-24 oed. Roedd pob un o'r cyflawnwyr eisoes yn hysbys i'r heddlu mewn perthynas ag amrywiaeth o droseddau, gan gynnwys trais a chyffuriau. Roedd saith o'r dioddefwyr hefyd yn hysbys i'r heddlu mewn perthynas â thrais a digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau cyn eu marwolaeth.

e. Mae data ar ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrais domestig ac atgyfeiriadau'r heddlu yn deillio o ffynonellau gwahanol, felly, mae'n bosibl y bydd mân amrywiadau o ran y dyddiad.

# Troseddau cyllyll

Mae nifer y troseddau sy'n ymwneud â chyllyll yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu i'r nifer uchaf erioed ar ôl i 45,627 o droseddau o'r fath gael eu cofnodi y llynedd (Ionawr-Rhagfyr 2019).[23] Bu cynnydd o 3,072 yn nifer y troseddau cyllyll ers 2018 (6%), a chynnydd o 49% ers 2011.[23 24]

Yn Ne Cymru, cofnodwyd 1,388 o achosion yn ardal yr heddlu yn ystod y cyfnod adolygu, yr oedd 18% ohonynt yn ymwneud â'r defnydd o gyllell (h.y. ymosodiad neu ymgais i ymosod ag arf) ac 83% am feddu ar arf.

Mae cynnydd amlwg yn nifer yr achosion o droseddau cyllyll a gofnodwyd ar benwythnosau, gan gynnwys dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul, y mae mwyafrif ohonynt yn ymwneud â 'meddu ar gyllell neu eitem lafnog'. Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol (e.e. Caerdydd) yw'r ardal heddlu sydd â'r crynodiad uchaf o droseddau cyllyll yn gyffredinol, gan gyfrif am 46% o'r galw.

## Nodweddion Dioddefwyr a Chyflawnwyr

Mae'r cyflawnwr troseddau cyllyll nodweddiadol yn ddyn gwyn Prydeinig, dan 30 oed ac eisoes yn hysbys i'r heddlu. Mae'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r defnydd o gyffuriau ac ymddygiad treisgar, sy'n batrwm cyson mewn adolygiadau blaenorol o droseddau cyllyll. At hynny, yn Ne Cymru, roedd 1 o bob 10 o gyflawnwyr yn gysylltiedig â mwy nag un achos o droseddau cyllyll yn ystod y cyfnod adolygu (n=132), yr oedd 50% ohonynt rhwng 16 a 24 oed.Y genhedlaeth iau sy'n dueddol o gario cyllyll fel arfer. Yng Nghymru a Lloegr, mae plant a phobl ifanc 10-17 oed yn cynrychioli 20% o'r rhai sy'n cael rhybudd neu euogfarn mewn perthynas â throseddau cyllyll.[24]

Nododd y Swyddfa Gartref yn ddiweddar fod nifer y troseddau yn ymwneud â meddu ar gyllell ymhlith menywod yn Lloegr wedi cynyddu'n sylweddol ers 2014 – gan gynyddu o leiaf 10% bob blwyddyn. O fewn ardal yr heddlu, roedd 147 o'r cyflawnwyr yn fenywaidd, yr oedd 80% ohonynt yn gysylltiedig â meddu ar gyllell – cafodd y mwyafrif ohonynt eu nodi'n 'fygythiad gyda chyllell neu arf'. Roedd y mwyafrif o'r cyflawnwyr benywaidd rhwng 25 a 34 oed, ac roedd gan 80% ohonynt faner neu rybudd, neu'r ddau, ar eu cofnod ar Niche (system rheoli cofnodion unigolion Heddlu De Cymru).

Mae'r dioddefwr nodweddiadol yn ddyn gwyn Prydeinig dan 35 oed, sydd eisoes yn hysbys i'r heddlu. Fel sy'n wir am gyflawnwyr troseddau cyllyll, maent yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r defnydd o gyffuriau, ymddygiad treisgar a throseddoldeb, sy'n awgrymu bod llawer ohonynt yn perthyn i'r un garfan.

Table 3: Victim and perpetrator characteristics for knife crime

| Nodweddion | Cyflawnwyr | Troseddwyr |
|---|---|---|
| Nifer | 1,205 | 931 |
| Rhywedd | 88% gwrywaidd (n=1058) | 78% gwrywaidd (n=726) |
| Ethnigrwydd | 80% Gwyn Prydeinig | 85% Gwyn Prydeinig |
| Oedran | 12% < dan 16 oed<br>~30% 16-24 oed<br>25% 25-34 oed | 13% < dan 16 oed<br>25% 16-24 oed |
| Eisoes yn hysbys i'r heddlu fel cyflawnwyr | 85% | 60% |
| Trais yn erbyn unigolyn | 85% | 48% |
| Troseddau cyffuriau | 56% | 45% |
| Dwyn a Meddu ar Eitemau wedi'u | 56% | 47% |
| Baneri a marcwyr rhybudd | 90% | 60% |
| Trais | 60% | 36% |
| Cyffuriau | 54% | 32% |
| Arfau | 58% | - |
| Iechyd meddwl | 54% | 33% |
| Cam-drin Domestig | 34% | 23% |
| Bod ar wyliadwriaeth | - | 27% |

# Troseddau Drylliau

Mae lefel y troseddau drylliau yn y DU ymhlith yr isaf yn y byd (NCA, 2019). Mae nifer y troseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio 43% yn is na'r nifer uchaf a gofnodwyd yn 2005/06.[80]

Fodd bynnag, bu cynnydd o 3% (i 6,684) yn nifer y troseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (6,492 o droseddau).

Mae nifer y troseddau arfau tanio yng Nghymru gyfan wedi gostwng 5% rhwng 2016-17 a 2017-18, tra bod y niferoedd wedi cynyddu rhwng 14% a 16% mewn ardaloedd megis De-orllewin Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.[f, 16]

f. Mae ONS yn nodi y bu gwelliannau yn arferion cofnodi'r heddlu, megis cofnodi "arfau tanio eraill", sy'n cynnwys arfau megis drylliau stynio, nwy CS a chwistrelliad pupur, a fydd yn effeithio ar y ffigurau.

Yn Ne Cymru, bu 145 o droseddau yn ymwneud ag arfau tanio, gan gynnwys llawddrylliau, drylliau a reifflau, yn ogystal â drylliau BB, arfau tanio ffug a drylliau stynio (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019). Roedd hyn yn cynnwys 45 o droseddau lle y cafodd yr arf tanio ei ddefnyddio, 33 o droseddau lle y cafodd unigolyn ei fygwth â'r arf a 65 o droseddau lle y canfuwyd bod unigolyn yn meddu ar arf tanio. Ni chofnodwyd unrhyw laddiadau o ganlyniad i arf tanio yn ystod y flwyddyn.

Yn Ne Cymru, roedd y mwyafrif o'r cyflawnwyr yn wyn Prydeinig (84%) ac yn wrywaidd (89%), ac roedd bron hanner ohonynt rhwng 16 a 24 oed. At hynny, roedd 90% o'r cyflawnwyr eisoes yn hysbys i'r heddlu, yr oedd 83% ohonynt yn hysbys am droseddau yn ymwneud â thrais yn erbyn yr unigolyn, 62% yn hysbys am achosion yn ymwneud â chyffuriau a 53% yn hysbys am achosion yn ymwneud â difrod. Hefyd, roedd hanner y cyflawnwyr eisoes yn hysbys i'r heddlu fel dioddefwyr trais.

Roedd proffil y dioddefwyr troseddau drylliau yn debyg i broffil y cyflawnwyr, sef gwyn Prydeinig, gwrywaidd, 16-24 oed. Roedd llawer o'r unigolion hyn hefyd yn adnabyddus iawn i'r heddlu (85%) fel dioddefwr (65%), cyflawnwr (55%) neu'r ddau (45%).

Yn Ne Cymru, roedd cysylltiad cryf rhwng camddefnyddio sylweddau a throseddau drylliau. Roedd marciwr rhybudd cyffuriau ar gofnod 59% o'r holl gyflawnwyr troseddau drylliau yn ystod y cyfnod adolygu, ac roedd 62% o'r cyflawnwyr wedi ymwneud â throseddau blaenorol a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau. At hynny, roedd 10 unigolyn ar y system Tracio Llinellau Cyffuriau

# Data Iechyd (System Gwyliadwriaeth Trais)

Fel rhan o'r System Gwyliadwriaeth Trais, dadansoddwyd data ar nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad a gofnodwyd gan bob un o Fyrddau Iechyd Prifysgol De Cymru (Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe) dros gyfnod o dair blynedd (2017-2019) er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ardaloedd yng Nghymru lle ceir risg o drais.

Tabl 4: Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad ledled De Cymru, 2017-2019

| | Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2019 | Cyfanswm tair blynedd |
| Ionawr | 340 | 321 | 348 | 1,009 |
| Chwefror | 350 | 371 | 388 | 1,109 |
| Mawrth | 390 | 345 | 415 | 1,150 |
| Ebrill | 387 | 350 | 361 | 1,098 |
| Mai | 390 | 407 | 383 | 1,180 |
| Mehefin | 435 | 353 | 417 | 1,205 |
| Gorffennaf | 449 | 403 | 380 | 1,232 |
| Awst | 414 | 401 | 354 | 1,169 |
| Medi | 384 | 390 | 392 | 1,166 |
| Hydref | 419 | 418 | 383 | 1,220 |
| Tachwedd | 364 | 401 | 349 | 1,114 |
| Rhagfyr | 393 | 399 | 355 | 1,147 |
| Cyfanswm | 4,715 | 4,559 | 4,525 | 13,799 |




Rhwng mis Ionawr 2017 a mis Rhagfyr 2019, cofnodwyd bod 13,799 o bobl wedi mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad ledled De Cymru.

Yn gyffredinol, bu lleihad bach yn nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad, gyda gostyngiad o 4% rhwng 2017 a 2019.

Ym mis Mehefin/Gorffennaf y cofnodwyd y nifer uchaf o bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i anafiadau yn gysylliedig ag ymosodiad, er bod hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

## Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn ôl demograffeg

Graff7: Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad yn ôl oedran a rhywedd, 2017- 2019





18+ Pobl ifanc 18-34 oed oedd y grŵp oedran amlycaf o bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad o hyd, ond gwelwyd lleihad yn nifer y dynion ifanc 18-24 a 25-34 oed a aeth i uned o'r fath yn dilyn ymosodiad.

Ar gyfartaledd, mae'r menywod sy'n mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad yn hŷn (25-34 oed) na'r dynion sy'n mynd i uned o'r fath yn dilyn ymosodiad (18-24 oed).

Rhwng 2017 a 2019, bu gostyngiad o 10% yn nifer y bobl <25 oed a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad.

Graff 8: Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad yn ôl rhywedd ac ardal o amddifadedd, 2017-2019




Mae data iechyd unedau damweiniau ac achosion brys yn nodi cysylltiad clir rhwng amddifadedd a thrais ac ymosodiadau ag anafiadau, gyda 4,344 yn fwy o bobl yn mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad yn ardaloedd cwintel 1 (10% mwyaf difreintiedig) o gymharu â chwintel 2 (20% mwyaf difreintiedig) rhwng 2017 a 2019.

Mae bron dwy ran o dair (38%) o'r rhai a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad a oedd yn gysylltiedig â thrais yn ystod y tair blynedd diwethaf yn byw mewn ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yn Ne Cymru. Wth ystyried y ddau gategori uchaf o ardaloedd o amddifadedd, mae hyn yn cynyddu i 60%. Mae'r ffigurau wedi parhau'n gyson dros amser.

Tabl 5: Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad yn ôl yr arf a gofnodwyd, 2017-2019

| Arf a ddefnyddiwyd i ymosod | Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2019 | Cyfanswm tair blynedd | |
| | n | n | n | n | % |
| Gwrthrych pŵl | 303 | 305 | 336 | 974 | 7 |
| Rhan o'r Corff | 1,281 | 1,356 | 1,207 | 3,844 | 28 |
| Dwrn | 1,664 | 1,454 | 1,514 | 4,632 | 34 |
| Traed | 209 | 214 | 229 | 652 | 5 |
| Pen | 109 | 92 | 89 | 209 | 2 |
| Gwthio | 98 | 97 | 110 | 305 | 2 |
| Gwrthrych miniog | 128 | 138 | 143 | 409 | 3 |
| Potel | 26 | 29 | 33 | 88 | 1 |
| Gwydr | 53 | 49 | 54 | 156 | 1 |
| Cyllell | 87 | 66 | 61 | 214 | 2 |
| Anhysbys | 758 | 729 | 749 | 2,236 | 16 |
| Cyfanswm | 4,716 | 4,559 | 4,525 | 13,800 | |

Yn gyffredinol, cyllyll oedd yr arf a gofnodwyd ar gyfer 2% o'r holl ymosodiadau ar bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys dros y tair blynedd diwethaf, a gwrthrych miniog (gan gynnwys potel, gwydr neu gyllell) oedd yr arf a gofnodwyd ar gyfer 7% o'r holl ymosodiadau hynny.

Mae nifer y bobl sy'n mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad sy'n cofnodi cyllell fel yr arf a ddefnyddiwyd wedi gostwng 30% (n=-26) dros y tair blynedd diwethaf, ond ni wyddys a gafodd rhai digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â chyllyll eu cofnodi yn y categori 'gwrthrych miniog'.

Felly, mae'n bosibl bod nifer gwirioneddol y troseddau cyllyll wedi'i danamcangyfrif mewn data iechyd unedau damweiniau ac achosion brys presennol.

Dros y cyfnod o dair blynedd (2017-2019), roedd y rhai a aeth i uned damweiniau ac achosion brys gydag anaf a oedd yn gysylltiedig â chyllell yn fwy tebygol o fod rhwng 25 a 34 oed.

Ers 2017, bu cynnydd o 68% yn nifer y bobl 35-44 oed sy'n mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad sy'n gysylltiedig â chyllell, ac yn 2019, ledled De Cymru, roedd y nifer uchaf o bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad a oedd yn gysylltiedig â chyllell yn perthyn i'r grŵp oedran hwn.

**Dengys data diweddar gan unedau damweiniau ac achosion brys ledled De Cymru fod 67% o'r bobl ifanc dan 25 oed yn mynd i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad sy'n gysylltiedig â chylell yn nodi bod yr ymosodiad wedi digwydd 'ar y stryd neu mewn man cyhoeddus arall'. I'r gwrthwyneb, mae'r rhai rhwng 45 a 54 oed yn fwy tebygol o roi gwybod am ymosodiadau â chyllyll yn y cartref.**

Tabl 6: Nifer y bobl a aeth i uned damweiniau ac achosion brys yn dilyn ymosodiad a oedd yn gysylltiedig â chyllell yn Ne Cymru yn ôl lleoliad yr ymosodiad ac oedran, 2017-2019

| Lleoliad yr ymosodiad | Categori oedran | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | <18 oed | | 18-24 oed | | 25-34 oed | | 35-44 oed | | 45-54 oed | | 55-64 oed | | 65+ oed | | Cyfanswm | |
| | n | % | n | % | n | % | n | % | n | % | n | % | n | % | n | % |
| Safle trwyddedig | 0 | 0 | 2 | 3 | 4 | 6 | 1 | 3 | 0 | 0 | 1 | 11 | 0 | 0 | 8 | 4 |
| Cartref yr Unigolyn ei Hun | 1 | 5 | 4 | 7 | 10 | 14 | 7 | 19 | 6 | 40 | 2 | 22 | 3 | 75 | 33 | 15 |
| Cartref Rhywun Arall | 0 | 0 | 7 | 12 | 6 | 9 | 3 | 8 | 3 | 20 | 1 | 12 | 0 | 0 | 20 | 9 |
| Ar y stryd neu mewn man cyhoeddus | 13 | 68 | 40 | 67 | 41 | 59 | 23 | 62 | 5 | 33 | 3 | 33 | 1 | 25 | 126 | 59 |
| Lleoliad heb ei nodi | 5 | 26 | 7 | 12 | 9 | 13 | 3 | 8 | 1 | 7 | 2 | 22 | 0 | 0 | 27 | 13 |
| Cyfanswm | 19 | 100 | 60 | 100 | 70 | 100 | 37 | 100 | 15 | 100 | 9 | 100 | 4 | 100 | 214 | 100 |

# Y Boblogaeth sy'n Troseddu yng Nghymru

Yng Ngorllewin Ewrop, Cymru a Lloegr sydd â'r gyfradd garcharu uchaf fesul pen o'r boblogaeth (148/100,000), sy'n uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae 5,091 o ddynion wedi'u carcharu yng Nghymru,[g25] ond amcangyfrifir bod 33% o garcharorion Cymru wedi'u carcharu mewn sefydliadau y tu allan i Gymru.[26] Ledled Cymru, mae traean o'r troseddwyr sydd wedi'u carcharu rhwng 30 a 39 oed (1,646 o ddynion), tra bod 16% ohonynt rhwng 15 a 24 oed (816 o ddynion).[25]

**Yng Nghymru, mae 60% o ddynion wedi'u carcharu am droseddau sy'n gysylltiedig â thrais a chyffuriau:**

- mae 1,194 o ddynion wedi'u carcharu am droseddau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn unigolyn (23%)
- mae 1,198 o ddynion wedi'u carcharu am droseddau cyffuriau (24%)
- mae 193 o ddynion wedi'u carcharu am feddu ar arf (4%)
- mae 446 o ddynion wedi'u carcharu am droseddau rhywiol (9%)

g. Nid oes unrhyw sefydliadau sy'n carcharu troseddwyr benywaidd yng Nghymru, felly mae'r unigolion hyn yn cael eu carcharu yn Lloegr (fel arfer yng Ngharchar Eastwood Park EM yn Swydd Gaerloyw).

# Trais mewn carchardai

Mae Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Carchardai EM Cymru a Lloegr ar gyfer 2017-18 yn nodi lefelau uchel o fwlio a thrais mewn llawer o garchardai dynion a chynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar staff, ac o ganlyniad, mae 50% o garchaorion wedi nodi eu bod yn teimlo'n anniogel ar ryw adeg.[27]


Cofnodwyd 34,223 o achosion o drais yn genedlaethol yn 2018, sef cynnydd o 139% ers 2010.[28] Mae hyn yn cynnwys trais yn erbyn staff (29% o achosion) a charcharorion eraill. Caiff bron hanner yr achosion o drais eu cyflawni gan garcharorion rhwng 15 a 24 oed, ac mae tua thraeon o'r carcharorion yn y grŵp oedran hwn yn ddioddefwyr trais eu hunain (36%). Yng Nghymru, cafodd 1,656 o achosion o drais eu cofnodi, yr oedd 74% ohonynt mewn carchardai yn Ne Cymru.[28] Gellir cysylltu llawer o'r problemau o ran trais a gofnodwyd mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr â chyffuriau, dyledion, a phroblemau iechyd meddwl.[28]

Cydnabyddir bod carchardai yn amgylcheddau risg uchel mewn perthynas â hunan-niwed a marwolaeth a achosir gan yr unigolyn ei hun. O fewn carchardai'r DU, mae nifer yr achosion o hunan-niwed wedi cyrraedd y lefel[28] uchaf erioed, gyda 55,598 o achosion wedi'u cofnodi, yn ymwneud â 12,570 o garcharorion. Mae hunan-niwed ddwywaith yn fwy cyffredin ymhlith y boblogaeth iau, gyda 27% o'r achosion o hunan-niwed a gofnodwyd ymhlith menywod yn ymwneud â menywod 18-24 oed a 50% yn ymwneud â menywod 18-29 oed. O ran y boblogaeth o droseddwyr gwrywaidd, roedd hunan-niwed yn fwy cyffredin ymhlith dynion 30-39 oed (31% o achosion), tra bod chwarter yr achosion o hunan-niwed yn ymwneud â dynion 15-24 oed (26%, n= 14,657 o achosion). Yng Nghymru,[28] cafodd 3,024 o achosion o hunan-niwed eu cofnodi, yr oedd 81% ohonynt mewn carchardai yn Ne Cymru.

# Aildroseddu

## Fframwaith i gefnogi newidiadau positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023

**Amcangyfrifir bod cost flynyddol aildroseddu yn y DU oddeutu £7-10 biliwn**




Mae'r fframwaith yn nodi bod llety, addysg, hyfforddiant a chyflogadwyedd, ffordd o fyw a chydnabod, cydberthnasau, cyffuriau ac alcohol, agwedd ac ymddygiad unigolyn yn effeithio ar ei risg o aildroseddu.

Yng Nghymru, mae 15,570 o droseddwyr dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol; y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 19).[25] O fewn blwyddyn i gael eu rhyddhau, mae 25% o garcharorion yn aildroseddu yn dilyn trais yn erbyn unigolyn neu droseddau cyffuriau, ac mae traean o droseddwyr yn aildroseddu yn dilyn troseddau yn ymwneud â meddu ar arf.

Ledled y DU, o fewn blwyddyn i gael eu rhyddhau, mae carchaorion yn aildroseddu bedair gwaith ar gyfartaledd, ac fel arfer mae ganddynt 20 o droseddau blaenorol (2017-18). Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon yn uwch yn Ne Cymru, yn enwedig Caerdydd ac Abertawe.

Tabl 7: Aildroseddu yn Ne Cymru (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018)

| Awdurdod lleol yn Ne Cymru | Aildroseddu o fewn blwyddyn i gael eu rhyddhau | | Troseddau blaenorol cymedrig fesul troseddwr |
|---|---|---|---|
| | % sy'n aildroseddu | Troseddau cymedrig | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 32.2% | 3.64 | 21.33 |
| Caerdydd | 39.5% | 4.39 | 29.26 |
| Merthyr Tudful | 37.5% | 4.08 | 20.97 |
| Castell-nedd Port Talbot | 27.1% | 3.48 | 17.70 |
| Rhondda Cynon Taf | 31.4% | 3.45 | 17.67 |
| Abertawe | 33.7% | 4 | 26.73 |

# Crynodeb

Ledled Cymru, y Deyrnas Unedig, ac yn fyd-eang, mae trais rhyngbersonol yn cael effaith ddifrodus ar lefel unigol a chymunedol, ac mae hyn yn rhoi straen sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus. Yn y DU, mae cryn ymdrech i fynd i'r afael â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc, drwy fuddsoddiad a newid deddfwriaethol i atgyfnerthu ymatebion ataliol, cyfreithiol a gweithredol i drais difrifol. Mae Heddlu De Cymru ymhlith 18 o ardaloedd heddlu yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cael cyllid gan y Swyddfa Gartref i sefydlu uned atal trais amlasiantaeth. Fodd bynnag, uchelgais yr uned newydd hon yw atal pob math o drais ledled Cymru, drwy ddod â phartneriaid allweddol ynghyd i ddarparu ymateb system gyfan iechyd y cyhoedd i drais.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n deall maint y broblem yn eu hardaloedd lleol, yn nodi achosion trais, yn datblygu ac yn profi gwerthusiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn sicrhau bod ymyriadau costeffeithiol ar gael yn eang. Yng Nghymru, caiff yr Uned Atal Trais ei llywio gan wyliadwriaeth trais, cydgynhyrchu a gwerthuso. Er mwyn cyflawni dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc, mae'n hanfodol deall trais ar lefel y boblogaeth i ddechrau, drwy gasglu a dadnsoddi amrywiaeth o ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd. Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau data hyn wedi rhoi darlun mwy cynhwysfawr a chyfannol o drais ledled De Cymru ac wedi golygu bod modd nodi ffactorau penodol sy'n cyfrannu at drais er mwyn llywio'r defnydd strategol o ymyriadau ar gyfer Uned Atal Trais De Cymru. Mae'r adroddiad hwn wedi darparu asesiad o anghenion mewn perthynas â thrais yn Ne Cymru, gan gynnwys cost trais i wasanaethau iechyd, natur a maint achosion o drais mewn perthynas â'r boblogaeth, y ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais, y pwysau y mae troseddau treisgar yn ei roi ar yr heddlu ac ysbytai, a natur y boblogaeth sy'n troseddu yng Nghymru. At hynny, mae lleisiau pobl ifanc sydd â phrofiad o drais a chamfanteisio, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn rolau gweithredol i ymateb i drais, wedi rhoi cyd-destun i'r data a ddarparwyd.

# Argymhellion

Mae nifer o argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r data sydd ar gael ac a gyflwynwyd yn yr asesiad o anghenion strategol, gan ystyried hefyd y sail dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio mewn perthynas ag atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc.

Mae'r argymhellion wedi'u rhestru isod:

Mae cysylltiad cryf rhwng trais ymhlith pobl ifanc ac anghydraddoldeb, tlodi a chasgliad o ffactorau risg. Mae'n amlwg o ddata'r heddlu yn unig fod nifer o ardaloedd lle mae trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn broblem. Felly, argymhellir y dylid cwblhau rhagor o waith dadansoddi data er mwyn ystyried y canlynol mewn mwy o fanylder:

- Demograffeg ardaloedd penodol ledled De Cymru lle mae trais difrifol ymhlith pobl ifanc yn broblem er mwyn hysbysu a galluogi partneriaid i ddatblygu strategaethau ymyrryd ac atal wedi'u targedu
- Croesgyfeirio amrywiaeth o setiau data er mwyn deall proffiliau poblogaeth ar lefel leol y rhai hynny nad ydynt yn rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o drais difrifol o fewn y data iechyd
- Gwaith modelu rhagfynegol mewn perthynas â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc mewn cymunedau yng Nghymru.

Awgryma tystiolaeth fod anghydraddoldeb rhwng cymunedau ac oddi mewn iddynt yn ffactor sylweddol sy'n ysgogi trais. Mae cysylltiad cymhleth rhwng trais, amddifadedd, tlodi ac anghydraddoldeb (gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig) nad yw wedi'i ddeall yn llawn. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil yng nghyd-destun De Cymru i ddeall y rhyngweithio rhwng y ffactorau hyn er mwyn sicrhau bod camau ataliol yn mynd i'r afael â'r ffactorau hyn yn effeithiol.

Mae angen deall yn well sut y gellir cynyddu ffactorau amddiffynnol, cydlyniant cymunedol a gwydnwch i leihau'r risg o drais. Argymhellir y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn, yn nhermau ffactorau risg a ffactorau amddiffynol ac ymyriadau cymunedol effeithiol.

Mae'n amlwg o'r asesiad o anghenion strategol, oherwydd natur drawsbynciol trais difrifol ymhlith pobl ifanc a ffactorau risg, y dylai atal a lleihau nifer yr achosion o drais difrifol ymhlith pobl ifanc fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y System Cyfiawnder Troseddol, Gwasanaethau Iechyd, Addysg a'r sector gwirfoddol. Ar hyn o bryd, prin yw'r data sydd ar gael. Fel blaenoriaeth ar gyfer gwaith partneriaeth yn y dyfodol, argymhellir y dylai'r Uned Atal Trais arwain ar ddatblygu dull system gyfan o rannu data, gan gynnwys, yn yr achos cyntaf, ymgysylltu â phartneriaid er mwyn deall pa ddata a gesglir a sut y cânt eu defnyddio.

Mae'r asesiad o anghenion strategol yn cyflwyno gwybodaeth am drais difrifol ymhlith pobl ifanc o amrywiaeth o ffynonellau data gwahanol; fodd bynnag, er mwyn llywio ymatebion strategol a gweithredol i ddulliau ymyrryd ac atal trais yn well, mae angen meithrin dealltwriaeth fwy cywir o gyfanswm nifer yr achosion o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn Ne Cymru. Felly, argymhellir y dylid gwneud rhagor o waith i ystyried modelau arloesol i ganfod cyfanswm nifer yr achosion o drais.

Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i sicrhau'r manteision o ran cost/osgoi costau atal trais i wasanaethau (megis gwasanaethau iechyd), er mwyn atgyfnerthu gwerth dulliau atal trais i lunwyr polisïau. Gallai mynd i'r afael â chost trais i systemau ehangach (e.e. y system cyfiawnder troseddol, systemau gofal cymdeithas), helpu i atgyfnerthu dulliau atal trais.

Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i gyfraniad gangiau a llinellau cyffuriau at drais difrifol ymhlith pobl ifanc a'r farchnad gyffuriau bresennol yng Nghymru. Dylid llunio asesiad penodol o anghenion a phroffil problemau er mwyn llywio strategaethau ymyrryd ac atal ymhellach.

Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gysylltiedig â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc ac mae hefyd yn ffactor risg ar gyfer trais pellach. Er bod yr asesiad o anghenion strategol presennol yn ystyried cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fras, argymhellir y dylai'r Uned Atal Trais arwain asesiad o anghenion strategol Cymru gyfan mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

Mae'n amlwg bod ymgysylltu ag ysgolion a lefelau cyflawniad yn gysylltiedig â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc. Dylid gwneud rhagor o waith gyda phartneriaid addysg a'r sector gwirfoddol i sicrhau lefelau priodol o ddata fel y gellir dadansoddi a meithrin dealltwriaeth fwy cywir o drais difrifol ymhlith pobl ifanc a'r ymyriadau sy'n effeithiol o ran atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc mewn lleoliadau addysg.

Mae'n debygol bod y cyfryngau cymdeithasol yn ffactor sylweddol sy'n ysgogi trais difrifol ymhlith pobl ifanc ac mae tystiolaeth newydd i awgrymu hyn. Mae'r ffyrdd y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn galluogi trais difrifol ymhlith pobl ifanc; profiadau o drais a cham-drin ar-lein;ac effeithiolrwydd ymyriadau o ran y cyfryngau cymdeithasol yn feysydd pwysig y mae angen ymchwilio iddynt yn y dyfodol.

Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall cyfraddau aildroseddu ac ystyried cyfleoedd i atal aildroseddu yng Nghymru. At hynny, mae angen ymyrryd i leihau trais mewn carchardai.

Yn Ne Cymru, mae'r mwyafrif helaeth o drais difrifol ymhlith pobl ifanc yn digwydd ymhlith dynion ifanc. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yn llawn y cysylltiad rhwng rhywedd a rhyw a thrais difrifol ymhlith pobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu'r modd y mae dynion yn cael rhyw a ffurfiau niweidiol ar wrywdod yn ffactorau risg ar gyfer trais. Mae'n manylu ymhellach ar y gwahaniaeth rhwng profiadau merched a menywod ifanc a phrofiadau bechgyn a dynion ifanc, ac yn awgrymu y gall fod cynnydd ymysg y menywod ifanc sy'n ymwneud â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc. Mae'r rhain yn feysydd pwysig y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

# Cyfeiriadau



1. Sefydliad Iechyd y Byd. Global status report on violence prevention. Geneva; 2014.
2. Y Swyddfa Gartref. Strategaeth Trais Difrifol [Rhyngrwyd]. Llundain; 2018. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/718051/CY_6.4297_HO_Serious_Violence_Strategy_v7_web.only.pdf
3. Y Swyddfa Gartref. What is the government doing to tackle violent crime? [Rhyngrwyd]. 2019. Ar gael: https://homeofficemedia.blog.gov.uk/2019/06/18/what-is-the-government-doing-to-tackle-violent-crime-2/
4. Cynghrair Atal Trais Sefydliad Iechyd y Byd. The public health approach [Rhyngrwyd]. 2019. Ar gael o: https://www.who.int/violenceprevention/approach/public_health/en/
5. Sefydliad Iechyd y Cyhoedd. Costs of Violence to the Healthcare System in Wales. 2020.
6. Gray B, Barton E, Davies A, Long S, Roderick J, Bellis M. A shared data approach more accurately represents the rates and patterns of violence with injury assaults. J Epidemiol Community Heal. 2017;71(12):1218–24.
7. Heeks M, Reed S, Tafsiri M, Prince S. The economic and social costs of crime second edition [Rhyngrwyd]. Llundain; 2018. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/the-economic-and-social-costs-of-crime
8. NHS Improvement. Reference costs 2017/18: highlights, analysis and introduction to the data [Rhyngrwyd]. Llundain; 2018. Ar gael o: https://improvement.nhs.uk/documents/1972/1_-_Reference_costs_201718.pdf
9. Heddlu De Cymru. Heddlu De Cymru: Amdanom ni [Rhyngrwyd]. 2020. Ar gael o: https://www.south-wales.police.uk/cy-GB/heddluoedd/heddlu-de-cymru/ardaloedd/amdanom-ni/amdanom-ni/
10. StatsCymru. Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn [Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year
11. Allen G, Audickas L. Police Service Strength [Rhyngrwyd]. 2020. Ar gael o: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN00634/SN00634.pdf
12. Sethi D, Hughes K, Bellis MA, Mitis F, Racioppi F. European Report on Preventing Violence and Knife Crime among Young People [Rhyngrwyd]. Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, Copenhagen; 2010. Ar gael o: http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0012/121314/E94277.pdf
13. Smith V, Wynne-McHardy E. An analysis of indicators of serious violence Findings from the Millennium Cohort Study and the Environmental Risk (E-Risk) Longitudinal Twin Study [Rhyngrwyd]. 2019. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/819840/analysis-of-indicators-of-serious-violence-horr110.pdf
14. Llywodraeth Cymru. Swyddfa Ystadegau Gwladol, Addysg a Sgiliau: Arholiadau ac Asesiadau [Rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 25 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments
15. Llywodraeth Cymru. StatsCymru: Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl awdurdod lleol, categori cam-drin ac oedran [Rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 25 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Service-Provision/childrenonchildprotectionregister-by-localauthority-categoryofabuse-

agegroup
16. Llywodraeth Cymru. StatsCymru: Plant sy'n derbyn gofal [Rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 23 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After
17. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Crime Survey for England and Wales: The nature of violent crime: appendix tables [Rhyngrwyd]. 2020 [dyfynnwyd 25 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/thenatureofviolentcrimeappendixtables
18. Ystadegau Cymru. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 Adroddiad canlyniadau [Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau-527.pdf
19. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nomis Official labour market statistics: local authority profile [Rhyngrwyd]. 2018 [dyfynnwyd 2020 Mar 25]. Ar gael o: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/contents.aspx
20. Bellis MA, Kathryn A, Hughes K, Ford K, Bishop J, Paranjothy S. Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population. [Rhyngrwyd]. Caerdydd; 2015. Ar gael o: http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/d488a3852491bc1d80257f370038919e/$FILE/ACE Report FINAL (E).pdf
21. Lemma L Di, Davies A, Ford K, Hughes K, Homolova L, Gray B, et al. Responding to Adverse Childhood Experiences. 2019.
22. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Recorded crime data at Community Safety Partnership and local authority level [Rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 25 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrimedataatcommunitysafetypartnershiplocalauthoritylevel
23. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Domestic abuse: findings from the Crime Survey for England and Wales: year ending March 2018 [Rhyngrwyd]. 2018 [dyfynnwyd 20 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusefindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales/latest
24. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Crime in England and Wales: Police Force Area data tables [Rhyngrwyd]. Llywodraeth EM. 2020 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables
25. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Knife and offensive weapon sentencing statistics: January to March 2019 [Rhyngrwyd]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/knife-and-offensive-weapon-sentencing-statistics-january-to-march-2019
26. Ystadegau Gwladol. Offender management statistics quarterly: July to September 2019 [Rhyngrwyd]. Llywodraeth EM. 2019 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2019
27. Jones R, Jones RW, Pritchard H, Nicholas L. International evidence on driving down imprisonment rates: What Wales could be? [Rhyngrwyd]. Caerdydd; 2019. Ar gael o: https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0015/1701402/International-Evidence-on-Driving-Down-Imprisonment-Rates.pdf
28. Arolygiaeth Carchardai EM. The HM Chief Inspector of Prisons for England and

Wales Annual Report for 2017 – 18 [Rhyngrwyd]. Llundain; 2018. Ar gael o: Arolygiaeth Carchardai EM
29. Ystadegau Gwladol. Safety in custody quarterly: update to September 2019 [Rhyngrwyd]. Llywodraeth EM. 2019 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-september-2019
30. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Population estimates: median ages for administrative, electoral and census geographies [Rhyngrwyd]. UK Government. 2018 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/adhocs/009301populationestimatesmedianagesforadministrativeelectoralandcensusgeographies
31. StatsCymru. Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad, lefel a dull astudio [Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru. 2020 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Enrolments-at-Welsh-HEIs/enrolmentsduringtheyear-by-institution-level-modeofstudy
32. StatsCymru. Dosbarthiad oedran y boblogaeth (1871 ymlaen), yn ôl rhyw ac awdurdod lleol [Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Distributions/agedistributionofpopulation-by-gender-localauthority
33. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ethnicity and National Identity in England and Wales: 2011 [Rhyngrwyd]. 2012 [dyfynnwyd 29 Mawrth 2020]. Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/articles/ethnicityandnationalidentityinenglandandwales/2012-12-11

# Atodiad 1: Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc: Ffactorau Risg

Mae'r ddogfen ganlynol wedi coladu tystiolaeth ar ffactorau risg trais difrifol ymhlith pobl ifanc o adolygiadau systematig a gynhaliwyd yn y maes. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:




Sefydliad Iechyd y Byd: Adroddiad Ewropaidd: Preventing Violence and Knife Crime among Young People




Y Swyddfa Gartref: Dadansoddiad o ddangosyddion trais difrifol

| Ffactor risg | Tystiolaeth |
|---|---|
| **Ffactorau risg unigol** | |
| **Rhyw** [1] [2] | Mae'r dystiolaeth yn dangos bod risg uwch y bydd dynion ifanc yn cymryd rhan mewn ymosodiadau ac achosion o fwlio na menywod ifanc a bod risg uwch y byddant yn cario arfau ac yn dioddef trais sy'n gysylltiedig â chyllyll. Fodd bynnag, mae risg uwch y bydd menywod yn wynebu mathau eraill o erledigaeth dreisgar, sy'n cynnwys trais rhywiol a thrais gan bartner agos[3] |
| **Oedran** [2] [4] [5] [6] | Gall gwahanol fathau o drais effeithio ar bobl ifanc yn ystod gwahanol gyfnodau o'u bywyd. Er enghraifft, mae ymchwil yn awgrymu bod achosion o ddioddef o fwlio yn lleihau gydag oedran, ond bod y risg o fod yn fwli yn cynyddu. Canfu'r Astudiaeth Hunanadrodd Drwgweithredu Ryngwladol mai'r oedran lle roedd y nifer fwyaf o droseddau treisgar yn cael eu cyflawni oedd 18–19 oed. Yng Nghymru a Lloegr, canfu astudiaeth o bobl 10–25 oed mai'r oedran lle roedd y nifer fwyaf o ymosodiadau yn cael eu cyflawni yng Nghymru a Lloegr oedd 14–15 oed, gyda lefelau uwch ymhlith gwrywod 12–19 oed a benywod 12–17 oed.<br><br>Roedd dioddef ymosodiadau yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau iau, lle roedd yr ymosodiadau yn cael eu cyflawni amlaf yn yr ysgol gan unigolion a oedd yn hysbys i'r dioddefwr. Ymhlith dioddefwyr hŷn, roedd ymosodiadau yn cael eu cyflawni amlaf gan ddieithriaid mewn amgylcheddau yfed. Mae astudiaethau o'r DU yn awgrymu mai pobl yn eu harddegau hŷn sy'n cario cyllyll amlaf. |
| **Ethnigrwydd** [8] [9] | Yn aml, mae astudiaethau yn canfod bod y risg o drais ymhlith pobl ifanc yn amrywio rhwng grwpiau ethnig. Awgrymwyd bod y gwahaniaethau mewn drwgweithredu rhwng grwpiau ethnig yn gysylltiedig â ffactorau fel integreiddio economaidd-gymdeithasol a diwylliant. Er enghraifft, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u lleoli mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol ac economaidd yn aml. |
| **Nodweddion meddyliol ac ymddygiadol** [10-12] [13] [14-17] | Mae risg uwch y bydd plant sydd â nodweddion personoliaeth ac ymddygiadol fel gorfywiogrwydd, problemau talu sylw, methu â rheoli ymddygiad, chwilio am gyffro a byrbwylltra yn cyflawni trais fel pobl ifanc. Mae'r fath dueddiadau personoliaeth ac ymddygiadol wedi'u cysylltu â rhai o gyflyrau'r system nerfol a thueddiadau genetig a all gynyddu'r risg o ymddygiad treisgar pan gânt eu cyfuno ag amgylcheddau niweidiol yn ystod plentyndod (fel profiad o gam-drin plant).<br><br>Yn yr un modd, mae dealltwriaeth well o epigeneteg yn awgrymu y gall yr un profiadau llawn straen a niweidiol yn ystod plentyndod newid mynegiad y genynnau. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr unigolion yr effeithiwyd arnynt yn troi at drais ond mae hefyd yn golygu y bydd risg uwch y byddant yn cael problemau meddyliol a chorfforol eraill yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hunan-barch isel yng nghyfnod y glasoed wedi'i gysylltu ag ymosodedd, yn yr un modd â theimladau o anobaith am y dyfodol (fel peidio â disgwyl byw yn hir neu weld y dyfodol mewn modd negyddol), ac iselder.<br><br>Mae anaf trawmatig i'r ymennydd wedi'i gysylltu â throseddau treisgar gan bobl ifanc fel ffactor risg mewn trais, ymgysylltiad gwael mewn triniaethau, torri rheolau yn y ddalfa ac aildroseddu. |
| **Cyflawniad academaidd isel** [11] [18] | Mae astudiaethau niferus wedi cysylltu cyflawniad a dyheadau academaidd isel ac ymrwymiad gwael i'r ysgol â thrais ymhlith pobl ifanc. Yn Unol Daleithiau America, canfu Arolwg Ymddygiad Risg Pobl Ifanc 2003 fod myfyrwyr â graddau is yn llawer mwy tebygol o fod wedi ymladd yn gorfforol yn ystod y 12 mis diwethaf ac o fod wedi cario arf yn ystod y 30 diwrnod diwethaf. |

## Erledigaeth yn y gorffennol ac ofn trais

19 20-23 24 25 26

Mae pobl ifanc sydd wedi cael profiad o drais yn ystod plentyndod yn wynebu mwy o risg o ymwneud ag achosion pellach o drais yn ystod glaslencyndod a bywyd fel oedolyn. Un ddamcaniaeth ar gyfer y cysylltiad hwn yw bod plant sy'n cael gofal annigonol, ymosodol neu esgeulus yn cael llai o gyfleoedd i ddysgu mathau soffistigedig (heb fod yn dreisgar) o ymdopi, mae eu sensitifrwydd i fygythiadau canfyddedig yn uwch (megis bod yn fwy cynhyrfus) ac maent yn cael llai o gyfleoedd i ddatblygu'r galluoedd angenrheidiol i ddelio'n effeithiol â heriau bywyd (fel hunangysyniadau cadarnhaol, cydberthnasau cadarnhaol rhwng cyfoedion a sgiliau datrys problemau).

Gall fod risg uwch y bydd pobl ifanc sydd â hanes o gam-drin corfforol neu rywiol mewn plentyndod yn teimlo'r angen i gario arf, yn mynd ati i gario arf ac y ceir gwybod eu bod wedi bygwth rhywun arall ag arf. Yn yr un modd, gall profi, gweld ac ofni mathau eraill o drais gynyddu'r risg o gario arf. Mewn astudiaeth o bobl ifanc yn y DU sy'n cario arfau, dywed 85% ohonynt eu bod yn gwneud hynny er mwyn amddiffyn eu hunain.

## Yfed alcohol

24 27 28 29-31 32

Mae cysylltiad cryf rhwng yfed alcohol a thrais ymhlith pobl ifanc. Gall yfed alcohol effeithio'n uniongyrchol ar weithrediad gwybyddol a chorfforol, gan leihau hunanreolaeth ac ymwybyddiaeth o risg a chynyddu ansefydlogrwydd emosiynol a byrbwylltra. Gall hyn olygu y bydd yfwyr yn fwy tebygol o droi'n dreisgar mewn gwrthdaro a lleihau eu gallu i adnabod arwyddion rhybudd mewn sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus.

Gall amrywiaeth o ffactorau unigol, cysylltiedig â lleoliad a chymdeithasol-ddiwylliannol effeithio ar y cysylltiadau cymhleth rhwng alcohol a thrais. Fodd bynnag, mae risg uwch y bydd pobl ifanc sy'n dechrau yfed yn ifanc, sy'n yfed yn aml ac sy'n yfed llawer yn cyflawni trais ac yn dioddef trais. Gwnaeth data'r Prosiect Alcohol a Chyffuriau Eraill i blant ysgol 15 a 16 oed Arolwg Ysgolion Ewrop ganfod nifer sylweddol uwch o achosion o ymosodedd cysylltiedig ag alcohol mewn gwledydd lle roedd meddwdod yn fwy cyffredin (roedd achosion o ymosodedd cysylltiedig ag alcohol yn amrywio o 1.2% yng Ngwlad Groeg i 16.0% yn Nenmarc). Mae yfed alcohol a meddwi yn gysylltiedig hefyd â risg uwch y bydd unigolyn yn cario arfau.

## Defnyddio cyffuriau

33-34 35,36 37 38

Mae risg uwch y bydd pobl ifanc sy'n ysmygu tybaco neu'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn cyflawni trais. Mae ysmygu tybaco'n debygol o fod yn arwydd o ymddygiad mentrus ymhlith pobl ifanc yn hytrach na ffactor sy'n achosi'r ymddygiad hwnnw. Er y gall yr un peth fod yn wir ar gyfer defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, mae'n bosibl y gall effeithiau fferyllol rhai cyffuriau anghyfreithlon wneud pobl yn fwy agored i drais. Gwelwyd cysylltiad penodol rhwng sylweddau fel cocên ac amffetaminau a thrais.

Canfu astudiaeth o bobl rhwng 14 ac 17 oed yng Ngwlad Belg, Ffederasiwn Rwsia ac Unol Daleithiau America fod y rhai sy'n ysmygu neu'n defnyddio mariwana neu gyffuriau anghyfreithlon eraill yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais (ond nid oedd y cysylltiadau rhwng mariwana ac erledigaeth yn sylweddol yn y sampl yn Unol Daleithiau America). Gellir cysylltu cyffuriau anghyfreithlon a thrais drwy fecanweithiau eraill hefyd, gan gynnwys defnyddio trais i gael adnoddau i brynu cyffuriau ac i reoli'r fasnach gyffuriau.

Mae ysmygu, cymryd cyffuriau anghyfreithlon, rhoi cynnig ar gyffuriau anghyfreithlon yn ifanc a chymryd polygyffuriau (defnyddio mwy nag un math o sylwedd) hefyd yn cynyddu'r risg o gario arfau ymhlith y glasoed. Ymhlith bechgyn ysgol 11–16 oed yn yr Alban, dywedodd un rhan o bump (20%) o'r rhai nad oeddent yn defnyddio cyffuriau eu bod wedi cario arfau o gymharu â 63% o'r rhai a oedd yn defnyddio cyffuriau. Ymhlith y ddau ryw, roedd cyfran y myfyrwyr a oedd wedi cario arfau yn cynyddu yn unol â nifer y cyffuriau anghyfreithlon yr oeddent wedi'u defnyddio, o 21% o'r rhai a oedd wedi defnyddio un cyffur i 92% o'r rhai a oedd wedi defnyddio pum cyffur anghyfreithlon neu'n fwy.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglus [32,33][39][24,40,41][42]

Mae pobl ifanc sy'n cyflawni trais ac yn cario arfau yn dueddol hefyd o gymryd rhan mewn mathau eraill o ddrwgweithredu ac ymddygiad peryglus. Canfu astudiaeth Caergrawnt yn y Deyrnas Unedig fod gwrywod a oedd wedi'u canfod yn euog o droseddau treisgar pan oeddent rhwng 10 a 21 oed yn dueddol o fod yn drafferthus, yn anodd eu disgyblu ac yn anonest yn 8–10 oed; yn driwantiaid, yn gelwyddgwn ac yn fwlis mynych yn 12–14 oed; wedi gadael yr ysgol yn gynnar; wedi cael profiad rhywiol cyntaf yn ifanc; ac yn cymryd cyffuriau, yfed alcohol yn drwm, gamblo, yfed a gyrru ac yn rhywiol anfoesol erbyn eu bod yn 18 oed.

Mae ymwneud â chyfoedion drwgweithredol hefyd yn ffactor risg ar gyfer trais ymhlith pobl ifanc a thrais gan ddefnyddio cyllyll. Mae ymosodedd a chymryd rhan mewn trais ymhlith pobl ifanc yn ffactorau risg allweddol ar gyfer cario arfau. Mae risg uwch y bydd pobl ifanc sy'n bwlio, sy'n dreisgar tuag at bobl eraill neu y rhoddir gwybod eu bod wedi bod yn ymladd yn gorfforol yn cario arfau.

Canfu astudiaethau yn Unol Daleithiau America fod y tebygolrwydd o gario arfau ymhlith myfyrwyr risg uchel yn cynyddu gyda sgorau cynyddol ar raddfa a oedd yn mesur ymosodedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf (ymddygiad fel gwylltio'n hawdd, tynnu coes, galw enwau a bygwth pobl eraill).

## Ffactorau risg cydberthnasau

### Cydberthnasau teuluol a chymorth gan rieni [10][20][43]

Gall strwythur y teulu effeithio ar risg unigolyn ifanc o drais. Canfuwyd bod pobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd un rhiant neu mewn teuluoedd mawr (gyda llawer o frodyr a chwiorydd) neu sydd â mamau yn eu harddegau yn fwy tebygol o gyflawni trais yn ystod eu harddegau.

Mae cael cydberthynas wael â rhieni a gofalwyr a lefelau monitro isel gan rieni wedi'u cysylltu â phobl ifanc yn ymladd ac yn cario arfau. Gall pobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn ystod eu plentyndod neu sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd camweithredol (gyda gwrthdaro yn y teulu) hefyd brofi lefelau uwch o drais a chario arfau.

### Cydberthnasau â chyfoedion [12][44,45][46,47][48]

Mae risg uwch y bydd pobl ifanc sy'n ymwneud â chyfoedion sydd wedi troseddu neu sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol yn cyflawni trais ac yn cario arfau. Canfu'r ail Adroddiad Hunanadrodd Drwgweithredu Ryngwladol fod 18% o bobl yn eu harddegau a chanddynt ffrindiau drwgweithredol wedi cyflawni ymosodiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â 2% o'r rheini heb ffrindiau drwgweithredol. Mae dau fath o ddrwgweithredwyr ifanc wedi'u nodi: drwgweithredwyr sy'n dechrau'n ifanc, sy'n dangos ymddygiad ymosodol a gwrthgymdeithasol yn ystod eu plentyndod a all barhau wrth iddynt ddod yn oedolion; a drwgweithredwyr sy'n dechrau'n hwyr, sy'n mabwysiadu ymddygiad drwgweithredol yn eu harddegau ond sy'n tyfu allan ohono gan fwyaf pan ddônt yn oedolion ifanc. Mae'n bosibl y bydd drwgweithredwyr sy'n dechrau'n gynnar yn dewis cyfoedion drwg gydag ymddygiad tebyg, ond mae'n bosibl y bydd drwgweithredwyr sy'n dechrau'n hwyr sy'n ymwneud â chyfoedion drwgweithredol yn ystod eu harddegau yn hwyluso datblygiad drwgweithrediad, er enghraifft gan fod pobl ifanc yn efelychu ymddygiad eu cyfoedion.

Mae hunaniaeth wrywaidd gryf yng nghyd-destun cymdeithasol grŵp o gyfoedion, gang neu gydberthynas â phartner agos yn gysylltiedig â risg uwch o drais. Caiff 'gwydnwch', gallu corfforol, difaterwch emosiynol a pharodrwydd i gymryd rhan mewn trais i ddatrys gwrthdaro rhyngbersonol neu er mwyn dangos hunaniaeth wrywaidd eu cofnodi yn y llenyddiaeth fel themâu parhaus mewn ymchwil i ddiwylliant gangiau ifanc, ffurfio hunaniaeth gymdeithasol mewn glaslencyndod a risg o drais.

### Bod yn rhan o gangiau [25][49][50]

Mae astudiaethau wedi dangos bod pobl ifanc sy'n aelodau o gangiau yn fwy tebygol o gyflawni trais a chario arfau. Canfu astudiaeth o bobl ifanc rhwng 10 ac 19 oed yn y Deyrnas Unedig fod 44% o'r rhai a ddywedodd eu bod yn perthyn i grŵp o ddrwgweithredwyr ifanc wedi cyflawni trais a bod 13% ohonynt wedi cario cyllell yn ystod y 12 mis blaenorol o gymharu ag 17% a 4% yn y drefn honno o blith y rhai nad oeddent mewn grŵp o'r fath. Fodd bynnag, mae cyfweliadau ag aelodau o gangiau sy'n hysbys i awdurdodau cyhoeddus wedi awgrymu y gallai cario cyllell fod yn llawer mwy cyffredin mewn rhai gangiau treisgar.

| Ffactorau risg cymunedol a chymdeithasol | |
|---|---|
| **Anghydraddoldeb cymdeithasol ac amddifadedd** [27] [51, 52] | Mae sawl astudiaeth wedi canfod bod anghydraddoldeb incwm yn bwysicach wrth ddarogan trais na lefelau tlodi cyffredinol, gydag astudiaethau yn canfod bod cyfraddau lladd yn cynyddu ochr yn ochr â maint y gwahaniaethau mewn incwm rhwng y rhai ar incwm uchel a'r rhai ar incwm isel. Credir bod y cydberthnasau hynny'n gysylltiedig â ffactorau fel ymddiriedaeth gymdeithasol wael a chydberthnasau gwael mewn cymdeithasau anghyfartal.<br><br>Canfu astudiaeth a ystyriodd 33 o wledydd, gan gynnwys sawl gwlad yn y Rhanbarth Ewropeaidd, gydberthyniadau rhwng anghydraddoldeb incwm a lladd a chyfalaf cymdeithasol (ymddiriedaeth ryngbersonol) ac awgrymwyd efallai nad oedd gan gymdeithasau sydd ag anghydraddoldeb incwm sylweddol ac ymddiriedaeth gymdeithasol isel y gallu cymdeithasol angenrheidiol i ddatblygu cymunedau diogel. Mae'r dadansoddiad o'r arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol sy'n cwmpasu 37 o wledydd (yn y Rhanbarth Ewropeaidd gan fwyaf) hefyd wedi dangos cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb incwm a bwlio mewn ysgolion ar lefel gwledydd. |
| **Argaeledd cyffuriau ac alcohol** [54] [55-60] | Gall gallu i gael gafael ar alcohol yn hawdd gyfrannu at drais ymhlith pobl ifanc. Er enghraifft, mae dwysedd uchel o leoliadau sy'n gwerthu alcohol yn gysylltiedig â chynnydd mewn trais mewn sawl gwlad.<br><br>Gall trais fod yn rhan systemig o'r fasnach cyffuriau anghyfreithlon, a ddefnyddir at ddibenion fel datrys anghydfodau, cosbi hysbyswyr, cael gwared ar elynion a chosbi dyledwyr. Felly, mae presenoldeb marchnad cyffuriau anghyfreithlon ac yn benodol, cymryd rhan mewn marchnadoedd cyffuriau, yn gysylltiedig â thrais a chario arfau. |
| **Amgylcheddau trefol a chymunedol** [61,62] [63] | [26]<br>Mae pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn dueddol o wynebu risg uwch o drais a thrais sy'n gysylltiedig â chyllyll. Yn fwy penodol, ar lefel cymdogaethau, gall anhrefn gymunedol, lefelau isel o adnoddau yn y gymdogaeth a chyfalaf cymdeithasol isel (fel cydlyniad cymdeithasol gwael a diffyg ymddiriedaeth ymhlith aelodau'r gymuned) fod yn gyfranwyr pwysig at drais ymhlith pobl ifanc.<br><br>Canfu data lefel gwledydd o'r Astudiaeth Hunanadrodd Drwgweithredu Ryngwladol fod cysylltiad cryf rhwng problemau yn y gymdogaeth (fel drwgweithredu, delio mewn cyffuriau a graffiti) a thrais ymhlith pobl ifanc. Canfuwyd bod amlygiad i drais ac ofn trais yn y gymuned yn cynyddu'r risg o gario arfau, gydag un astudiaeth yn Unol Daleithiau America yn canfod, po fwyaf ofnus oedd myfyrwyr o bobl eraill a oedd yn byw yn eu cymdogaeth, y mwyaf tebygol oeddent o gario arf. |
| **Amgylchedd yr ysgol** [64.65] [66] | Gall amgylchedd yr ysgolion y mae plant yn eu mynychu ddylanwadu ar eu hymddygiad a'r risg y bydd pobl ifanc yn cyflawni trais. Gall fod risg uwch y bydd plant sydd â chanfyddiadau negyddol o hinsawdd yr ysgol (fel ymddygiad myfyrwyr a rheolaeth athrawon) a llai o ymlyniad i'r ysgol yn cael eu hamlygu i drais a chario arfau.<br><br>Yn Unol Daleithiau America, mae anhrefn gymdeithasol ar lefel ysgolion, gan gynnwys cymarebau myfyrwyr-athro uchel a chyfraddau uchel o waharddiadau, wedi bod yn gysylltiedig ag achosion o fwlio. |

## Amgylcheddau sefydliadol

[68, 69]

Gall plant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau sefydliadol fod yn arbennig o agored i drais ymhlith pobl ifanc. Canfu astudiaeth o blant a oedd yn byw mewn cartrefi gofal preswyl yn y Deyrnas Unedig fod y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd wedi dioddef ymosodiadau llafar gan eu cyfoedion ac roedd bron eu hanner wedi dioddef ymosodiadau corfforol neu ymosodiadau ar eu heiddo. Yn aml, mae plant a gaiff eu hatgyfeirio at gartrefi gofal preswyl wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o drais fel pobl ifanc, a hynny fel dioddefwr a chyflawnwr. Ymhlith y ffactorau a nodwyd fel rhai sy'n cyfrannu at drais ymhlith cyfoedion mewn cartrefi gofal preswyl mae diffyg nodau ac amcanion clir, anallu i ddiwallu anghenion preswylwyr ifanc, diffyg rheolaeth dros atgyfeiriadau a phrosesau derbyn annigonol a diwylliannau macho a hierarchaidd a gaiff eu derbyn yn gyffredinol.

## Argaeledd arfau

[70]

Gall argaeledd arfau mewn cartrefi neu o fewn cymunedau ei gwneud hi'n hawdd i bobl ifanc gael gafael arnynt. Er mai prin yw'r astudiaethau sydd wedi archwilio effeithiau argaeledd cyllyll, canfu astudiaeth genedlaethol fawr o wrywod a recriwtiwyd i'r fyddin yn y Swistir (20 oed) fod mynychder achosion o drais sy'n achosi anaf y rhoddwyd gwybod amdanynt gan yr unigolion yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cynyddu o 1.5% ymhlith y rhai nad oeddent yn berchen ar gyllyll i 4.6% ymhlith y rhai a oedd yn berchen ar un neu ddwy gyllell ac 8.9% ymhlith y rhai a oedd yn berchen ar dair cyllell neu fwy. Gwelwyd codiadau tebyg yn ôl y mathau eraill o arfau yr oeddent yn berchen arnynt. Gall canfyddiadau bod cyllyll ar gael yn helaeth ac yn cael eu cario'n helaeth yn y gymuned hefyd gyfrannu at nifer yr unigolion sy'n cario arfau drwy annog pobl ifanc i gario cyllyll fel dull amddiffyn.

## Menywod ac anghydraddoldeb rhywiol

[71, 72, 73, 74, 75]

Er bod menywod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn trais ymhlith pobl ifanc ar y cyfan, gall fod risg uwch y byddant yn dioddef rhai mathau o drais, yn benodol trais gan bartner agos a thrais rhywiol. Mae astudiaethau rhyngwladol wedi canfod y gall trais yn erbyn menywod gynyddu mewn cymdeithasau lle mae gan fenywod lai o bŵer economaidd a chymdeithasol neu lle caiff goruchafiaeth gwrywod ei derbyn a thrais ei oddef. Mae astudiaethau yn Unol Daleithiau America wedi dangos bod merched yn eu harddegau a menywod ifanc sy'n dweud bod ganddynt lai o bŵer mewn cydberthnasau agos yn profi lefelau uwch o drais mewn perthynas.

Prin yw'r astudiaethau sydd wedi archwilio rôl rhywedd mewn trais sy'n gysylltiedig â chyllyll. Fodd bynnag, mae ymchwil ansoddol yn y Deyrnas Unedig wedi awgrymu y ceir achosion aml o gamfanteisio ar "gariadon" ifanc a chymdeithion benywaidd eraill (fel chwiorydd) aelodau o gangiau treisgar, gan gynnwys achosion lle y bydd partneriaid ac aelodau eraill o'r gangiau yn eu cam-drin yn gorfforol ac yn rhywiol.

## Normau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cefnogi trais

[76 - 78, 79]

Gall normau cymdeithasol a diwylliannol sy'n goddef trais, er enghraifft cymeradwyo trais fel dull arferol o ddatrys anghydfodau neu gosbi plant, gefnogi ac atgyfnerthu trais mewn cymdeithas. Gall pobl ifanc ddysgu goddefgarwch cymdeithasol tuag at ymddygiad treisgar mewn plentyndod, er enghraifft drwy ddefnyddio cosb gorfforol neu drwy brofi trais teuluol a mathau eraill o drais.

Bu dadl wyddonol a chyhoeddus ers sawl blwyddyn ynghylch a yw gweld cynhyrchion ar y cyfryngau torfol sy'n portreadu trais yn cael dylanwad ar drais gwirioneddol. Er mai amwys yw'r dystiolaeth bod ffilmiau treisgar yn cael effaith o'r fath, gwnaeth meta-ddadansoddiad o dros 130 o astudiaethau ar gyfer gemau fideo treisgar awgrymu'n gryf fod cysylltiad â gemau o'r fath yn ffactor risg achosol ar gyfer cynnydd mewn ymddygiad ymosodol, gwybyddiaeth ymosodol ac effaith ymosodol ac ar gyfer llai o empathi ac ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol.

# Atodiad cyfeiriadau

1. Sethi D, Hughes K, Bellis MA, Mitis F, Racioppi F. European Report on Preventing Violence and Knife Crime among Young People [Internet]. WHO Regional Office for Europe, Copenhagen; 2010. Available from: http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0012/121314/E94277.pdf
2. Smith V, Wynne-McHardy E. An analysis of indicators of serious violence Findings from the Millennium Cohort Study and the Environmental Risk (E-Risk) Longitudinal Twin Study [Internet]. 2019. Available from: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/819840/analysis-of-indicators-of-serious-violence-horr110.pdf
3. Roe S, Ashe J. Young people and crime: findings from the 2006 Offending, Crime and Justice Survey. London; 2008.
4. Craig W, Harel-Fisch Y, Fogel-Grinvald H, Dostaler S, Hetland J, Simons-Morton B, et al. A cross-national profile of bullying and victimization among adolescents in 40 countries. Int J Public Health. 2009;54(2):216–24.
5. Office for National Statistics. Domestic abuse: findings from the Crime Survey for England and Wales: year ending March 2018 [Internet]. 2018 [cited 2020 Mar 20]. Available from: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusefindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales/latest
6. Junger-Tas J, Terlouw G-J, Klein MW. Delinquent behavior among young people in the western world: first results from the International Self-report Delinquency Study. Kugler Publications. 1994.
7. YouGov. YouGov/11 MILLION, Solutions to gun and knife crime. London; 2009.
8. Phillips A. Youth Survey 2008: young people in mainstream education. London; 2008.
9. Henrich CC, Brookmeyer KA, Shahar G. Weapon violence in adolescence: parent and school connectedness as protective factors. J Adolesc Heal. 2005;37:306–12.
10. Junger-Tas J. Ethnic minorities, social integration and crime. J Crim Policy Res. 2001;9:5–29.
11. D Owen. The spatial and socio-economic patterns of minority ethnic groups in Great Britain. Scott Geogr Mag. 1995;11(1):27–35.
12. Thurnherr J, Michaud P-A, Berchtold A, Akr C, Suris J-C. Youths carrying a weapon or using a weapon in a fight: what makes a difference? Health Educ Res. 2009;24(2):270–9.
13. Hawkins JD, Herrenkohl T, Farrington DP, Brewer D, Catalano R, Harachi TW. A review of predictors of youth violence. 1998;
14. Junger-Tas, Marshall IH, Enzmann D, Killias M, Steketee M, Gruszczynska B. Juvenile delinquency in Europe and beyond. Results of the second International SelfReport Juvenile Delinquency Study. Springer Science & Business Media. 2019.
15. Tremblay RE. Developmental origins of disruptive behaviour problems: the "original sin" hypothesis, epigenetics and their consequences for prevention. J Child Psychol Psychiatry. 2010;51:341–67. 16. Donnellan MB, Kali H, Trzesniewski KH, Robins R, Moffitt T, Caspi A. Low self-esteem is related to aggression, antisocial behavior, and delinquency. Psychol Sci. 2005;16(4):328–35.

17. Bolland JM, McCallum DM, Lian B, Bailey CJ, P Rowan. Hopelessness and violence among inner-city youths. Matern Child Health J. 2001;5(4):237–44.
18. Ferguson CJ, Meehan DC. Saturday night's alright for fighting: antisocial traits, fighting, and weapons carrying in a large sample of youth. Psychiatr Q. 2010;
19. Williams WH, Chitsabesan P, Fazel S, McMillan T, Hughes N, Parsonage M, et al. Traumatic Brain Injury: a potential cause of violent crime? Lancet Psychiatry. 2018;5(10):836–44.
20. Centre for Disease Control. Unintentional injury and violence-related behaviors and academic achievement. Alanta;
21. Kinniburgh KJ, Blaustein M, Spinazzola J. "Attachment, Self-Regulation, and Competency: A comprehensive intervention framework for children with complex trauma." Psychiatr Ann. 2017;35(5):424–30.
22. Duke N, Borowsky I, Pettingell S, McMorris B. Examining youth hopelessness as an independent risk correlate for adolescent delinquency and violence. Matern Child Health J. 2011;15(1):87–97.
23. Leeb R, Barker L, Strine T. The effect of childhood physical and sexual abuse on adolescent weapon carrying. J Adolesc Heal. 2007;40:551–8.
24. Lewis T, Leeb R, Kotch J, Smith J, Thompson R, Black M. Maltreatment history and weapon carrying among early adolescents. Child Maltreat. 2007;12(3):259–68.
25. Casiano H, Mota N, Afifi TO, Enns M, Sareen J. Childhood maltreatment and threats with weapons. J Nerv Ment Dis. 2009;197(11):856–61.
26. Kodio C, Auinger P, Ryan S. Demographic, intrinsic, and extrinsic factors associated with weapon carrying at school. Arch Pediatr Adolesc Med. 2003;157(9):103.
27. Kingery P, Coggeshall M, Alford A. Weapon carrying by youth: risk factors and prevention. Educ Urban Soc. 1999;31:309–33.
28. House of Commons. Knife crime: seventh report of session 2008–09. London; 2009.
29. World Health Organization. Alcohol and interpersonal violence: policy briefing [Internet]. Copenhagen, WHO Regional Office for Europe; 2005. Available from: http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_ file/0004/98806/E87347.pdf
30. Mattila V, Parkkari J, Rimpela A. Risk factors for violence and violence-related injuries among 14- to 18-year-old Finns. J Adolesc Heal. 2006;38:617–20.
31. Swahn M, Donovan J. Predictors of fighting attributed to alcohol use among adolescent drinkers. Addict Behav. 2005;38:1317–34.
32. Choquet M, Menke H, Manfredi R. Interpersonal aggressive behaviour and alcohol consumption among young urban adolescents in France. Alcohol Alcohol. 1991;26(381–390).
33. Bye E, Rossow I. The impact of drinking pattern on alcohol-related violence among adolescents: an international comparative analysis. Drug Alcohol Rev. 2010;29:131–7.
34. Shonkoff J. From neurons to neighborhoods: old and new challenges for developmental and behavioral paediatrics. Dev Behav Pediatr. 2003;24:70–6.
35. Smith-Khuri E, Iachan R, Scheidt P, Overpeck M. A cross-national study of violence related behaviours in adolescents. Arch Pediatr Adolesc Med. 2004;158:539–44.
36. Macdonald S, Anglin-Bodrug K, Mann R, Erickson P, Hathaway A, Chipman M, et al. Injury risk associated with cannabis and cocaine use. Drug Alcohol Depend. 2003;72(2):99–115.

37. Kuhns J, Clodfetera T. Illicit drug-related psychopharmacological violence: the current understanding within a causal context. Aggress Violent Behav. 2009;14:69–78.
38. Vermeiren R, Schwab-Stone M, Deboutte D, Leckman P, Ruchkin V. Violence exposure and substance use in adolescents: findings from three countries. Pediatrics. 2003;111(3):535–40.
39. McKeganey N, Norrie J. Association between illegal drugs and weapon carrying in young people in Scotland: schools' survey. Br Med J. 2000;320:982–4.
40. Farrington D. Predictors, causes, and correlates of male youth violence. Crime and Justice. 1998;24:421–75.
41. Linville D, Huebner A. The analysis of extracurricular activities and their relationship to youth violence. J Youth Adolesc. 2005;34:483–92.
42. Muula A, Rudatsikira E, Siziya S. Correlates of weapon carrying among high school students in the United States. Ann Gen Psychiatry. 2008;7(8).
43. Escobar-Chaves S, Tortolero S, Markham C, Kelder S, Kapadia A. Violent behavior among urban youth attending alternative schools. J Sch Health. 2002;72:357–62.
44. Farrington D, Loeber R. Epidemiology of youth violence. Child Adolesc Psychiatr Clin N Am. 2000;9:733–48.
45. Rountree PW. Weapons at school: are the predictors generalizable across context? Sociol Spectr. 2000;20(3):291–324.
46. Patchin J, Huebner B, McCluskey J, Varano S, Bynum T. Exposure to community violence and childhood delinquency. Crime and Delinquency. Crime Delinq. 2006;52(2):307–32.
47. Lacourse E, Nagin D, Tremblay R, Vitaro F, Claes M. Developmental trajectories of boys' delinquent group membership and facilitation of violent behaviors during adolescence. Dev Psychopathol. 2003;15(1):183–97.
48. Moffitt T. Adolescence-limited and life-coursepersistent antisocial behaviour: a developmental taxonomy. Psychol Rev. 1993;100:674–701.
49. Wilkinson D. Violent events and social identity: Specifying the relationship between respect and masculinity in inner-city youth violence. Sociol Stud Child Youth. 2001;8:235–72.
50. Sharp C, Aldridge J, Medina J. Delinquent youth groups and offending behaviour: findings from the 2004 Offending, Crime and Justice Survey. Home Office. 2010.
51. Bullock K, Tilley N. Shootings, gangs and violent incidents in Manchester: developing a crime reduction strategy [Internet]. Home Office. 2010 [cited 2010 Aug 17]. Available from: http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs2/ crrs13.pdf
52. Wilkinson R, Kawachi I, Kennedy B. Mortality, the social environment, crime and violence. Sociol Health Illn. 1998;20(5):578–97.
53. Lynch J, Smith G, Harper S, Hillemeier M, Ross N, Kaplan G, et al. Is income inequality a determinant of population health? Part 1. A systematic review. Milbank Q. 2004;82(5):99. markets in deprived neighbourhoods. 2002.

54. Elgar F, Craig W, Boyce W, Morgan A, Vella-Zarb R. Income inequality and school bullying: multilevel study of adolescents in 37 countries. J Adolesc Heal. 2009;45(4):351–9.
55. M Livingston, Chikritzhs T, Room R. Changing the density of alcohol outlets to reduce alcohol-related harm. Drug Alcohol Rev. 2007;26:557–66.
56. Lupton R, Wilson A, May T, Warburton H, Turnbull P. A rock and a hard place: drug markets in deprived neighbourhoods. 2002.
57. Fabio A, Loeber R, Balasubramani G, Roth J, Fu W, Farrington D. Why some generations are more violent than others: assessment of age, period, and cohort effects. Am J Epidemiol. 2006;164(2):151–60.
58. Cooper C, Eslinger D, Nash D, Zawahri J Al, Stolley P. Repeat victims of violence: report of a large concurrent case-control study. Arch Surg. 2000;135(7):837–43.
59. Martínez R, Rosenfeld R, Mares D. Social disorganization, drug market activity, and neighborhood violent crime. Urban Aff Rev. 2008;43(134):846–74.
60. Bennett T, Holloway K. Gang membership, drugs and crime in the UK. Br J Criminol. 2004;44:305–23.
61. AJ Lizotte, Krohn M, Howell J, Tobin K, Howard G. Factors influencing gun carrying among young urban males over the adolescent–young. Criminology. 2000;38(3):811–34.
62. Hemphill SA, Smith R, Toumbourou JW, Herrenkohl TI, Catalano RF, McMorris BJ, et al. Modifiable determinants of youth violence in Australia and the United States: a longitudinal study. Aust N Z J Criminol. 2009;42(3):289–309.
63. CK Malecki, Demaray M. Carrying a weapon to school and perceptions of social support in an urban middle school. J Emot Behav Disord. 2003;11:16–178.
64. Dowdell E. Alcohol use, smoking, and feeling unsafe: health risk behaviors of two urban seventh grade classes. Issues Compr Pediatr Nurs. 2006;29:157–71.
65. Junger-Tas J, Ribeaud D. Juvenile delinquency and gender. Eur J Criminol. 2004;1:333.
66. McGee R, Carter M, Williams S, Taylor B. Weapon carrying in a sample of high school students in New Zealand. Aust N Z J Public Health. 2005;29(1):13–5.
67. Bradshaw C, Awyer A, O'Brennan L. A social disorganization perspective on bullying-related attitudes and behaviors: the influence of school context. Am J Community Psychol. 2009;204– 20.
68. Barter C, Renold E, Berridge D, Cawson P. Peer violence in children's residential care. . Gordonsville, VA, Palgrave Macmillan; 2004.
69. Bellis MA, Hardcastle K, Hughes K, Wood S, Nurse J. Preventing Violence, Promoting Peace: A Policy Toolkit for Preventing Interpersonal, Collective and Extremist Violence. [Internet]. London; 2017. Available from: https://www.researchgate.net/publication/317545265_Preventing_Violence_Promoting_Peace_- _A_Policy_Toolkit_for_Preventing_Interpersonal_Collective_and_Extremist_Violence_-_Executive_Summary
70. M Killias, Haas H. The role of weapons in violent acts: some results of a Swiss national cohort study. J Interpers Violence. 2002;17:14–32.

71. Silvestri A, Oldfield M, Squires P, Grimshaw R. Young people, knives and guns: a comprehensive review, analysis and critique of gun and knife crime strategies. London; 2009.
72. Krug EG, Mercy J, Dahlberg L, Zwi A. The world report on violence and health. Lancet [Internet]. 2002;5(360):1083–8. Available from: https://www.who.int/violence_injury_prevention/violence/world_report/en/
73. Buelna C, Ulloa E, Ulibarri M. Sexual relationship power as a mediator between dating violence and sexually transmitted infections among college women. J Interpers Violence. 2009;24:1338– 712.
74. Teitelman AM, Ratcliffe SJ, Morales-Aleman MM, Sullivan CM. Sexual relationship power, intimate partner violence, and condom use among minority urban youth. J Interpers. 2008;23(12):1694–712.
75. Pitts J. Reluctant gangsters: youth gangs in Waltham Forest [Internet]. 2007. Available from: http://troublesofyouth.pbworks.com/f/reluctant-gangsters - J Pitts.pdf
76. Firmin C. Female voice in violence project. A crossregional study on the impact of gangs and serious youth violence on women and girls. London; 2010.
77. Lansford J, Dodge K. Cultural norms for adult corporal punishment of children and societal rates of endorsement and use of violence. Parent Sci Pract. 2008;8:257–70.
78. Abrahams N, Jewkes R. Effects of South African men's having witnessed abuse of their mothers during childhood on their levels of violence in adulthood. J Public Health (Bangkok). 2005;95:1811–6.
79. KA Brookmeyer, Henrich C, Schwab-Stone M. Adolescents who witness community violence: can parent support and prosocial cognitions protect them from committing violence? Child Dev. 2005;76:917–29.
80. Anderson C, Shibuya A, Ihori N, Swing E. Violent video game effects on aggression, empathy, and prosocial behavior in eastern and western countries: a meta-analytic review. Psychol Bull. 2010;136(2):151–73.